# Canllawiau ar y Grant Cymorth Tai

Canllawiau Ymarfer i Awdurdodau Lleol o fis Ebrill 2020

Diweddarwyd Ebrill 2025

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52301, ISBN digidol 978-1-83715-783-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## Cynnwys

Pennod 1: Ynglŷn â'r Grant Cymorth Tai ........ 2
Pennod 2: Diben craidd a chymhwystra'r Grant Cymorth Tai ........ 4
Pennod 3: Amgylchedd Ehangach y Grant Cymorth Tai ........ 14
Pennod 4: Cynllunio strategol ........ 18
Pennod 5: Gwaith/tirwedd rhanbarthol ........ 26
Pennod 6: Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ........ 29
Pennod 7: Comisiynu a chaffael gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ........ 32
Pennod 8: Dyraniadau cyllidebol, rheolaeth ariannol, monitro ac adrodd ar y Grant Cymorth Tai ........ 44
Pennod 9: Dangos effaith y Grant Cymorth Tai ........ 50
Atodiad A: Fframwaith Cynllunio Grant Cymorth Tai Awdurdodau Lleol ........ 51
Atodiad B: Y Grant Cymorth Tai – Rhestr o'r dogfennau gofynnol ........ 52
Atodiad C: Proffil Taliadau'r Grant Cymorth Tai ........ 55
Atodiad D: Mathau o gategorïau gwybodaeth a chyngor ........ 56
Atodiad E: Canllawiau ar gomisiynu a chaffael: awgrymiadau a chynghorion ........ 58
Atodiad F: Ariannu gwasanaethau larwm ........ 60

# Pennod 1: Ynglŷn â'r Grant Cymorth Tai

## 1.1 Cefndir

1.1.1 Mae'r Grant Cymorth Tai yn dwyn ynghyd dri grant sy'n bodoli eisoes, sef y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Grant Atal Digartrefedd[1], a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru.

1.1.2 Sefydlwyd y grant ym mis Ebrill 2019 yn dilyn prosiect braenaru hyblygrwydd cyllid Llywodraeth Cymru. Penderfynodd y Gweinidogion ym mis Hydref 2018 i gyflwyno dau grant o'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi, gan wahanu'r grantiau tai oddi wrth yr elfennau nad oeddent yn ymwneud â thai i bob awdurdod lleol. Yn sgil hynny, ym mis Ebrill 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grant Plant a Chymunedau (gan gwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae), ac un Grant Cymorth Tai (sy'n cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a Gorfodi Rhentu Doeth Cymru).

1.1.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu disgwyliadau clir y dylai'r Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai gydweithio mewn modd di-dor, gan ddarparu gwasanaethau integredig lle y bo'n briodol. Drwy'r ddogfen ganllaw hon, rydym wedi ceisio nodi'n glir y cysylltiadau y gellid ac y dylid eu gwneud â'r Grant Plant a Chymunedau.

## 1.2 Ynglŷn â'r Grant Cymorth Tai

1.2.1 Rhaglen grant ymyrraeth gynnar yw'r Grant Cymorth Tai, a sefydlwyd i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu'n helpu pobl a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Nid yw'r Grant Cymorth Tai yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Yn hytrach, mae gwasanaethau a ariennir gan y grant yn ychwanegu at, yn ategu ac yn cynorthwyo'r gwasanaeth statudol i sicrhau bod y cynnig cyffredinol a ddarperir gan yr awdurdodau lleol yn helpu pobl i gael y cartrefi cywir a'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â'r problemau y maent yn eu hwynebu, a all fod yn niferus, fel dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r cymorth yn canolbwyntio ar y person, a'i nod yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref cynaliadwy a'i gadw drwy fynd i'r afael â'r problemau o ran iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau neu broblemau eraill maent yn eu hwynebu, eu helpu i wella eu hiechyd a'u llesiant a/neu eu helpu i gael, neu ddod yn agosach at gael swydd neu gyfle hyfforddi ar sail eu hamgylchiadau penodol.

[1] Nid yw'r holl gyllid o'r Grant Atal Digartrefedd wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cymorth Tai. Bydd y Grant Atal Digartrefedd yn parhau i weithredu fel grant ar wahân er mwyn ariannu prosiectau a mentrau cenedlaethol.

1.2.2 Mae'r rhaglen grant yn gwneud cyfraniad sylweddol at y gwaith o gyflawni Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd. Mae hefyd yn lleihau neu'n dileu'r angen am ymyriadau, sy'n aml yn fwy costus, gan wasanaethau cyhoeddus eraill fel y GIG a/neu wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, bobl sy'n syrthio i'r system cyfiawnder troseddol.

1.2.3 System grantiau yw'r Grant Cymorth Tai sy'n ariannu rhan o 'Raglen Cymorth Tai' gyffredinol sy'n cwmpasu'r ddyletswydd statudol i atal digartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw a'r gwasanaethau atal digartrefedd anstatudol[2] a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae ystyried y ddau gyda'i gilydd yn ein galluogi i fynd ati mewn modd systematig i leihau digartrefedd ac effaith digartrefedd a thai ansefydlog, gan gyfeirio adnoddau a gweithgarwch at yr ardaloedd hynny a fydd yn cael yr effaith fwyaf, ac, yn ei dro, yn lleihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus a gwella canlyniadau iechyd a llesiant.

1.2.4 Caiff y Rhaglen Cymorth Tai ei diffinio mewn un datganiad strategol i'w datblygu gan awdurdodau lleol fel y nodir ym mhennod pedwar.

Canllawiau Ymarfer ar y Grant Cymorth Tai

1.2.5 Caiff y grant ei ddosbarthu i awdurdodau lleol i ddarparu, gweinyddu a chomisiynu gwasanaethau i wireddu gweledigaeth a chyflawni diben craidd y grant, fel y'u nodir ym mhennod dau. Mae'r ddogfen ganllaw'n nodi'r fframwaith llywodraethu y dylai awdurdodau lleol ei ddilyn wrth weithredu a gweinyddu'r grant. Felly, mae cydymffurfio â'r canllawiau yn un o'r disgwyliadau a bennir gan delerau ac amodau'r grant. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r ddogfen ganllaw hon drwy delerau ac amodau'r grant a thrwy'r gofynion adrodd a nodir ym mhennod wyth. Mae'r canllawiau hyn wedi bod yn weithredol ers 1 Ebrill 2020.

.

[2] Dylid ystyried bod anstatudol yn y cyd-destun hwn y tu hwnt i ddyletswyddau statudol penodol awdurdodau lleol o ran digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

# Pennod 2: Diben craidd a chymhwystra'r Grant Cymorth Tai

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'n hollbwysig bod y Grant Cymorth Tai yn pennu gweledigaeth glir ac a rennir, ei fod yn seiliedig ar werthoedd cryf a bod ei amcanion strategol yn cynnwys y ffordd y mae'n gweithio gyda rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru ac yn eu hategu. Mae'r bennod hon yn nodi gweledigaeth, gwerthoedd, diben craidd a chymhwystra'r grant y dylai awdurdodau lleol eu dilyn.

## 2.2 Gweledigaeth

2.2.1 Mae tai yn un o feysydd blaenoriaeth allweddol yn Rhaglen Llywodraethu 2021-2026 Llywodraeth Cymru, sy'n pennu'r ymrwymiad i ddiwygio'r gyfraith dai a gweithredu argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailartrefu cyflym.

2.2.2 Mae Cynllun Gweithedu Lefel Uchel Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (2021-2026) yn adeiladu ar Strategaeth Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2019 a gwaith ac argymhellion y Grŵp Gweithredu Gorchwyl a Gorffen ar Ddigartrefedd. Mae'n gosod y cyfarwyddyd i waith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i roi diwedd ar ddigartrefedd dros y pum mlynedd nesaf, gyda'r Grant Cymorth Tai yn elfen allweddol i gyflawni'r cynllyn a sicrhau newid trawsnewidiol.

2.2.3 Mae'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r nod o gydweithio i atal digartrefedd a sicrhau, lle nad oes modd ei atal, ei fod yn ddigwyddiad prin am gyfnod byr ac nad yw'n digwydd eto. I wneud hyn, mae angen i ni fynd i'r afael â gwir achos digartrefedd a galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnodau hwy. Felly, nod y Grant Cymorth Tai yw sicrhau "*Cymru lle nad oes neb yn ddigartref, a lle mae gan bawb gartref diogel y gallant ffynnu ynddo... a byw bywyd bodlon, bywiog ac annibynnol".*

2.2.4 Er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o ddigartrefedd na ellir ei atal yn fyr ac na fydd yn digwydd eto, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â dull gweithredu sy'n ailgartrefu pobl yn gyflym. Rhaid, felly, i waith cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ystyried sut y bydd yn cefnogi'r broses drawsnewidiol y mae ei hangen i symud i ddull gweithredu o'r fath. Mae canllawiau ychwanegol wedi'u datblygu o ran ailgartrefu cyflym a dylid eu defnyddio hefyd i lywio'r gwaith o ddatblygu Strategaethau Cymorth Tai a Chynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym.

## 2.3 Diben y Grant

2.3.1 Diben y Grant Cymorth Tai yw atal digartrefedd a chefnogi pobl i feddu ar y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael gafael ar gartref sefydlog ac addas a/neu aros ynddo. Dylai hyn gael ei gyflawni drwy'r canlynol:

- Gwasanaethau sy'n meithrin gallu unigolion neu aelwydydd i gynnal cartref.
- Gwasanaethau sy'n atal digartrefedd neu'r angen i unigolyn fyw mewn lleoliad sefydliadol amhriodol.
- Darparu neu alluogi unigolion neu aelwydydd i gael gafael ar dai addas.
- Gwasanaethau sy'n lliniaru effaith digartrefedd ar unigolion neu aelwydydd.
- Brocera mynediad at wasanaethau eraill i bobl sydd angen tai.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth gyda gweithwyr proffesiynol eraill a'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys mewn ysgolion a cholegau.
- Gweithredu i orfodi deddfwriaeth sy’n sicrhau a chynnal mynediad i gartrefi o ansawdd da, a ariannwyd yn flaenorol drwy grant Rhentu Doeth Cymru. Er enghraifft, deddfwriaeth sy’n rhoi dyletswyddau ar landlordiaid i gofrestru ac o ran rheoli tenantiaethau.

### 2.4 Gwerthoedd

2.4.1 Mae’r gwerthoedd sy'n sail i'r Grant Cymorth Tai a’r egwyddorion yr ydym yn disgwyl iddynt fod yn sail i gynllunio strategol ar gyfer atal a lleddfu digartrefedd ar draws gwasanaethau cyhoeddus, wedi’u nodi isod. Dylai’r rhain, ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, lywio'r dull gweithredu cyffredinol a ddefnyddir ym mhob rhan o'r sector tai â chymorth.

- Yr ymyriadau cynharaf yw’r rhai mwyaf effeithiol a chost effeithiol a’r rheini y dylid eu dewis bob tro.
- Mae mynd i’r afael â digartrefedd a’i atal yn fater i’r holl wasanaethau cyhoeddus – yn hytrach na ‘mater tai’ yn unig.
- Dylai pob gwasanaeth ganolbwyntio ar yr unigolyn, gan weithio i’w gryfder a’i gefnogi i gyflawni ei ddyheadau.
- Dylai gwasanaethau gael eu comisiynu a’u darparu mewn ffordd a gaiff ei llywio’n seicolegol, gan ystyried effaith trawma ar bobl y mae angen cymorth arnynt, er mwyn sicrhau effaith gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys pum elfen dulliau a gaiff eu llywio’n seicolegol: y fframwaith seicolegol; cydberthnasau; cymorth a hyfforddiant i staff; arferion sy’n creu tystiolaeth; a’r amgylchedd ffisegol (gweler 2.9).
- Dylai polisi, gwasanaethau ac arferion fod yn seiliedig ar wybodaeth a chael eu llunio mewn modd cydgynhyrchiol ar y cyd â darparwyr gwasanaethau a’r rheini sydd â phrofiad uniongyrchol.
- Dylai gwasanaethau gael eu datblygu gan ddefnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael.
- Dylai’r dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 gael eu hystyried fel y dewis olaf – nid y cyntaf – a dylai pob gwasanaeth weithio yn ôl ysbryd y ddeddf yn lle cadw at union eiriad y gyfraith yn unig.
- Rydym yn disgwyl i bob gwasanaeth drin pobl â pharch ac fel arbenigwyr yn eu bywydau eu hunain, gweithio gydag empathi gan wrando ar bobl a datblygu perthynas o ymddiriedaeth â nhw, a bod yn atebol i ddefnyddwyr gwasanaethau, y cyhoedd a chomisiynwyr gwasanaethau.

- Rhaid darparu cymorth tai mewn ffordd sy’n cefnogi’r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ategol yn effeithiol, drwy sicrhau nad yw amgylchiadau tai ansefydlog yn tanseilio eu heffaith. Er enghraifft, gall ffordd ddi-drefn o fyw danseilio effaith gwasanaethau iechyd meddwl – gall sefydlogi amgylchiadau tai unigolyn wella effaith yr ymateb clinigol hwnnw. Bydd y Grant Cymorth Tai yn cyflawni hyn drwy fabwysiadu dulliau cydweithredol wrth weithio gyda swyddogaethau ac asiantaethau eraill.

## 2.5 Cymhwystra

Pwy sy'n gymwys

2.5.1 Mae unrhyw un y mae angen cymorth arnynt er mwyn ei hatal rhag bod mewn perygl o ddigartrefedd, i fynd i’r afael â digartrefedd neu i sicrhau amgylchiadau tai mwy sefydlog yn gymwys i gael cymorth tai ar yr amod ei fod yn gymwys i gael help o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014, ni waeth beth fo'i sefyllfa o ran deiliadaeth neu ddiffyg deiliadaeth.

Oedran

2.5.2 Rhaid i'r sawl sy'n gymwys i gael gwasanaethau fod yn 16 oed neu’n hŷn.

2.5.3 Caniateir gwaith cyn-denantiaeth ag unigolion dan 16 oed lle mai’r diben yw meithrin gallu’r unigolyn i gymryd contract meddiannaeth[3] neu hawl i feddiannu cartref ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed. Nodwch, lle mae angen cymorth i deuluoedd, megis cyfryngu teuluol er mwyn galluogi’r unigolyn dan 16 oed i aros yng nghartref y teulu, fod cyllid Grant Plant a Chymunedau ar gael (drwy’r rhaglen Teuloedd yn Gyntaf) ac y dylid ei ystyried yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, lle nad yw’r Grant Plant a Chymunedau neu ffynonellau cyllido eraill ar gael yna gellir defnyddio’r Grant Cymorth Tai i dalu rhywfaint neu’r holl gostau hyn.

Statws Mewnfudo

2.5.4 Nid yw pobl nad ydynt yn gymwys i gael help o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014, oherwydd eu statws mewnfudo, yn gymwys i gael cyllid drwy’r Grant Cymorth Tai. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy’n amlinellu sut all gwasanaethau lleol cefnogi pobl sydd heb hawl i gyllid cyhoeddus.

Dim meini prawf yn ymwneud â chysylltiadau lleol

2.5.5 At ddiben y Grant Cymorth Tai NID yw unrhyw feini prawf yn ymwneud â chysylltiadau lleol yn gymwys. Nid yw hyn yn effeithio ar feini prawf yn

[3] Mae’r term ‘contract meddiannaeth’ bellach wedi disodli’r term ‘cytundeb tenantiaeth, ac mae’r term ‘tenant; wedi’i ddisodli gan ‘ddeiliad contract o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi: Mae cyfraith tai yn newid: Rhentu Cartrefi Cymru | LLYW.CYMRU

ymwneud â chysylltiadau lleol fel y maent yn berthnasol i ddyletswyddau digartrefedd statudol neu bolisïau dyrannu.

2.5.6 Nid yw hyn yn creu cyfrifoldeb i ariannu darpariaeth drwy'r Grant Cymorth Tai y tu hwnt i ffin yr awdurdod lleol. Ar gyfer y Grant Cymorth Tai, disgwylir i'r awdurdod lleol ddiwallu'r angen ar y pwynt lle y caiff ei gyflwyno ac na chaiff cysylltiadau lleol eu hystyried mewn perthynas â chyllid drwy'r Grant Cymorth Tai.

Deiliadaeth

2.5.7 Gall pobl sy'n dangos angen am gymorth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai fod yn byw mewn eiddo yn y sector rhentu preifat, tai cymdeithasol neu sy'n eiddo i berchen-feddiannwyr, neu gael eu hatgyfeirio at eiddo o'r fath. Lle bynnag y bo'n bosibl, dylai gwasanaethau fod yn niwtral o ran deiliadaeth er mwyn sicrhau nad amgylchiadau'r aelwyd o ran tai sy'n pennu a fydd gwasanaethau ar gael i rywun. Dylai comisiynwyr sicrhau eu bod yn monitro deiliadaeth er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gytbwys.

## 2.6 Yr hyn y gall y grant ei ariannu

2.6.1 Atal digartrefedd yw prif nod y grant. Ceir hyblygrwydd sylweddol o ran sut y gellir defnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai, cyhyd â'i fod yn helpu i alluogi pobl i gael gafael ar lety, neu aros ynddo. Ni fwriedir i'r rhestr ganlynol fod yn rhestr gynhwysfawr o'r hyn y gall y grant ei ariannu. Yn hytrach, mae'n rhoi canllaw cyffredinol a all fod yn sail i benderfyniadau gan awdurdodau lleol. Dylai'r gwasanaethau cymorth a ddarperir fod yn seiliedig ar anghenion a nodwyd neu a aseswyd; a dylai'r asesiad hwn fod yn hyblyg a chanolbwyntio ar y person. Rhaid i unrhyw weithgareddau a ariennir allu dangos eu bod yn bodloni diben y grant fel y'i nodir uchod yn 2.3.

- Gwasanaethau i alluogi unigolion neu aelwydydd i gael gafael ar dai, yn cynnwys help i gael tenantiaeth a negodi telerau contract meddiannaeth priodol.
- Gwasanaethau i helpu pobl sy'n agored i niwed i feithrin neu gynnal y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen er mwyn bod mor annibynnol â phosibl mewn cartref diogel ac addas.
- Gwasanaethau i gynnal tenantiaeth, megis cyfryngu â landlordiaid, paratoi ar gyfer rheoli tenantiaeth, cymorth sy'n gysylltiedig â thai a ddarperir drwy waith grŵp neu yn unigol, a symiau bach ar gyfer arloesi lle y cânt eu defnyddio gyda'r person er mwyn gwella ei allu i fyw'n fwy annibynnol.
- Gwasanaethau sy'n ceisio ymyrryd yn gynnar (cyn y cyfnod digartrefedd statudol) i helpu aelwydydd i gynnal eu tenantiaeth neu hawl arall i feddiannu eu cartref.
- Gwasanaethau sy'n gwella cynaliadwyedd y broses o sicrhau tŷ i unigolyn drwy fynd i'r afael â'i unigedd cymdeithasol a'i helpu i chwarae rhan lawn yn ei gymuned.
- Mentrau sy'n ceisio sicrhau bod digartrefedd yn para am gyfnod byr ac nad yw'n digwydd eto, megis ail-gartrefu cyflym a Tai yn Gyntaf.

- Gwasanaethau sydd â chysylltiadau da â gwasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd addysg, hyfforddiant, gwirfoddoli a chyflogaeth, ac sy’n cyfeirio pobl at y gwasanaethau hynny.
- Camau i orfodi deddfwriaeth tai, lle mae'r ddeddfwriaeth yn helpu pobl y mae angen cymorth arnynt i gael gafael ar dai diogel, yn cynnwys gorfodi rhwymedigaethau cofrestru Rhentu Doeth Cymru ar landlordiaid. Fodd bynnag, dylid cyfyngu hyn i wariant a dderbyniwyd yn flaenorol o dan gyllid grant Rhentu Doeth Cymru. Yn ogystal, ni ddylid defnyddio'r Grant Cymorth Tai i ariannu'r ddarpariaeth o weithgarwch gorfodi na staff o fewn timau gorfodi – dylid ariannu hyn o ffynonellau eraill.

Gall y grant hwn hefyd gael ei ddefnyddio i ariannu:

- Gwasanaethau cyfieithu, dehongli neu iaith arwyddion Prydain lle mae gwasanaethau cymorth yn gweithio gyda Grwpiau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ffoaduriaid a phobl â nam ar eu golwg neu glyw.
- Darparu bwyd a phethau ymolchi mewn lleoliadau llety dros dro er mwyn helpu i roi pobl ar ben ffordd. Nid yw'r grant yn caniatáu ar gyfer darparu bwyd na chyflenwadau eraill ar gyfer y cartref ar sail barhaus.
- Hyfforddiant neu gymorth therapiwtig i staff a ariennir gan y Grant Cymorth Tai er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol.
- Gwasanaethau porth, ynghyd â chostau trwydded TG cysylltiedig, sy'n hwyluso ymatebion priodol i ddefnyddwyr gwasanaethau. Nid yw hyn yn cynnwys cyflawni dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth digartrefedd a gofal cymdeithasol.
- Gwasanaethau i unigolion y mae’r ALl wedi dod i’r casgliad nad oes unrhyw ddyletswydd digartrefedd statudol yn ddyledus iddynt.
- Taliadau Disgresiwn i hwyluso diben y grant, h.y. un gost un tro sydd wedi'i chynllunio i'w gwneud yn haws i unigolyn fyw yn ei gartref ei hun.
- Cymorth emosiynol sy'n hyrwyddo cadernid a llesiant i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael gwasanaeth cymorth sy'n gysylltiedig â thai.
- Gwasanaethau cyfryngu er mwyn atal digartrefedd neu helpu i sicrhau bod yr unigolyn yn gallu parhau i fyw yn ei gartref ei hun. Gall hyn gynnwys gwasanaethau cyfryngu teuluol i bobl o dan 16 oed lle’r prif bwrpas yw galluogi’r person ifanc i aros yng nghartref y teulu (gweler paragraff 2.5.3). Fodd bynnag, gall cyllid y Grant Plant a Chymunedau fod ar gael (drwy’r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf) at y diben hwn a dylid archwilio hyn yn y lle cyntaf. Dylid dangos tystiolaeth o weithio gyda chydweithwyr y Grant Plant a Chymunedau a’r gwasanaethau ieuenctid wrth gynllunio a chomisiynu’r gwasanaethau hyn.
- Gweithgareddau sy'n gwella dealltwriaeth person o'i hawliau o ran tai, gan gynnwys hawliau lles.
- Unrhyw waith ymchwil a gwerthuso sy'n cefnogi gwelliant parhaus yn y broses o gyflenwi'r grant (ac eithrio lle mae eithriadau penodol wedi’u nodi yn 2.7.1).
- Larymau a gwasanaethau monitro lle mae'r ddarpariaeth honno'n gwella gallu'r derbynnydd i barhau i fyw yn ei gartref (gweler Atodiad F).
- Costau perthnasol sy’n gysylltiedig â darparu cymorth effeithiol, fel gofal plant neu dreuliau teithio, er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fynd

ar gyrsiau neu i weithgarwch tebyg er mwyn mynd i'r afael â'u hanghenion cymorth.
- Cynlluniau Bond, gan gynnwys tystysgrifau bond a ddosbarthwyd, yn unol â throsglwyddo'r prosiectau hyn o'r Grant Atal Digartrefedd i'r Grant Cymorth Tai o 2024-25.

### 2.7 Yr hyn na ddylai'r grant ei ariannu

2.7.1 Ni ddylai'r Grant ariannu'r canlynol:

- Gwariant cyfalaf – grant refeniw yw hwn.
- Unrhyw un o'r gwasanaethau craidd sy'n ofynnol o dan unrhyw ddyletswydd statudol a ddelir gan gorff cyhoeddus, e.e. deddfwriaeth digartrefedd a gofal cymdeithasol (fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Mae'r cyfyngiad hwn yn berthnasol p'un a yw'r ddyletswydd statudol honno'n cael ei chyflawni ai peidio. Ni ellir defnyddio'r Grant Cymorth Tai ei hun yn lle darpariaeth statudol na'r ddyletswydd i'w chreu a dylai baich y ddyletswydd statudol honno gael ei ariannu gan gyllidebau perthnasol.
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r Grant Cymorth Tai yn ategu ac yn cefnogi'r cyfryw wasanaethau, ond ei brif nod yw galluogi pobl sy'n defnyddio ei wasanaethau, nid gofalu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys gofal sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru a gofal a ddarperir o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac eithrio ar gyfer elfennau sy'n gysylltiedig â thai. Ni ddylai fod angen cofrestru'r elfen Grant Cymorth Tai ag Arolygiaeth Gofal Cymru; os mai dyna yw'r achos yna gwasanaeth gofal cymdeithasol ydyw ac ni ddylai gael ei ariannu drwy'r Grant Cymorth Tai.
- Costau llety - gan gynnwys cost prynu neu gostau prydlesu adeilad llawn. Fodd bynnag, gellid ystyried 'costau prydlesu' adeilad lle bo'n briodol fel rhan o 10% o'r "gostau rheoli craidd" o'r prosiect cymorth (gweler pennod 8, paragraff 8.3.3).
- Costau adnewyddu adeilad neu eiddo gwag.
- Dodrefn neu nwyddau gwyn (dylid ystyried y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer y diben hwn neu gellir defnyddio cyllid Atal Digartrefedd Dewisol i dalu costau ar gyfer darnau gosod neu osodiadau lle nad yw'r unigolion yn derbyn budd-daliadau neu nad yw'r eitemau'n gymwys trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol).
- Gwasanaethau cymorth domestig e.e. gweithgareddau fel siopa, glanhau, garddio a choginio. Fodd bynnag, mae cefnogi unigolyn i feithrin ei sgiliau ei hun yn y maes hwn, yn hytrach na gwneud y tasgau hyn ar ei ran, yn unol â bwriad y grant. Mae eithriad ar gyfer caniatáu i weithiwr cymorth siopa ar ran/ dod â nwyddau i unigolyn sy'n derbyn cymorth pan fo hynny'n fater iechyd cyhoeddus (ee pan fo raid i'r unigolyn hunanynysu neu mae dan gwarantin). Gellir ei ddefnyddio hefyd i ariannu gwasanaethau glanhau/clirio lle caiff ei ddarparu fel ymyrraeth sy'n benodol dros amser ochr yn ochr â chefnogaeth emosiynol mewn prosiect celcio gyda'r pif nod o gefnogi'r unigolyn i ddatblygu ei sgiiau ei hun yn y maes hwn.

- Gweithgarwch comisiynu a chaffael neu weinyddu grantiau awdurdod lleol, gan gynnwys gwaith monitro a gwerthuso sy'n benodol i gontractau, ac unrhyw gostau TG cysylltiedig.
- Tasgau rheoli tai cyffredinol a fyddai fel arfer yn cael eu hariannu gan renti neu daliadau gwasanaeth. Er enghraifft:

  - Gosod rhenti a thaliadau gwasanaeth, eu casglu a rhoi cyfrif amdanynt.
  - Sefydlu, cyhoeddi a gorfodi'r cytundeb drwyddedu neu'r contract meddiannaeth.
  - Rhoi gwybod am waith atgyweirio a'i wneud
  - Darparu elfennau diogelwch a mynediad drysau gwasanaethau larwm gwifredig; dylai'r rhain fod yn rhan o'r rhent a'r taliadau gwasanaeth (gweler para 2.10).
- Gwasanaethau cynghori arbenigol annibynnol h.y. prif ddiben y gwasanaeth yw darparu cyngor ar dai. Nid yw hyn yn cynnwys gwasanaethau cymorth lle darperir cyngor ar dai fel rhan o berthynas gefnogol gyda'r unigolyn.
- Cymorth emosiynol sy'n glinigol ei natur a lle bo cyfrifoldeb ar gorff statudol i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r ffin hon, yn anochel, yn anodd ei nodi, ond y prif beth i'w ystyried yw a oes angen y cymorth er mwyn sicrhau'r llesiant emosiynol sydd ei angen i gynnal amgylchedd tai sefydlog.
- I dalu am ôl-ddyledion rhent neu renti ymlaen llaw ar gyfer unigolion o dan unrhyw amgylchiadau (dylid ystyried yn hytrach Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai'r Adran Gwaith a Phensiynau neu gyllid Atal Digartrefedd Dewisol Awdurdodau Lleol (sydd wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw o 2025-26) ar gyfer y diben hwn). Fodd bynnag, fel y nodir yn 2.6.1, gellir ei ddefnyddio i arannu cynlluniau bond yn unol â throsglwyddo'r prosiectau hyn o'r Grant Atal Digartrefedd i'r Grant Cymorth Tai o 2024-25.

## 2.8 Hyd y cymorth

2.8.1 Nid oes unrhyw derfyn o ran pa mor hir y gellir darparu cymorth o dan y grant. Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol benderfynu pa mor hir y gellir darparu cymorth ar sail anghenion defnyddiwr y gwasanaeth, a dylid ceisio cefnogi pobl tuag at annibyniaeth ac adferiad, yn hytrach na datblygu dibyniaeth ar wasanaethau. Lle mae'r angen am gymorth yn barhaus ac mai'r nod yw lleihau'r angen am ymatebion gwasanaeth nad ydynt yn ymwneud â thai ('sefydliadol'), ni fyddai cyfyngiad amser ar y cymorth fel arfer. Er enghraifft, yn achos cymorth ar gyfer pobl oedrannus bregus.

2.8.2 Yn yr un modd, dylai cyfnod y cymorth a gomisiynwyd sicrhau effaith gynaliadwy ar anghenion y defnyddiwr. Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol osgoi pennu cyfyngiadau amser sy'n rhy llym ac yn debygol o arwain at bobl yn ailgyfeirio mewn gwasanaethau am fod cyfnod y cymorth wedi bod yn rhy fyr iddynt ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i fyw yn fwy annibynnol.

2.8.3 Rhaid i wasanaethau cymorth tai alluogi a datblygu annibyniaeth unigolyn, h.y. 'gwneud gyda' ac nid 'gwneud dros'. Dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio ar

annog a chefnogi'r unigolyn i wneud ei ddewisiadau a’i benderfyniadau ei hun a thynnu sylw at ei gryfderau. Dylai hyn gynnwys atal lefel annibyniaeth person rhag gostwng.

2.8.4 Rhaid datblygu pecynnau cymorth a chytuno arnynt ar y cyd gyda'r person sy'n defnyddio gwasanaethau Cymorth Tai a dylai unrhyw risgiau gael eu hystyried. Gall y cymorth a gynigir gynnwys ymyriadau byrdymor ac uniongyrchol er mwyn atal digartrefedd. Er y gall fod amgylchiadau lle bydd angen parhaus am gymorth sy'n gysylltiedig â thai, dylid rhoi ystyriaeth i ba mor hir y bydd gwasanaeth ar gael, a ph'un a yw rhai mathau o gymorth hirdymor yn gyfystyr â gofal mewn gwirionedd neu a ydynt yn creu dibyniaeth yn hytrach na chreu annibyniaeth. Bydd amgylchiadau lle bydd unigolyn yn anochel yn colli galluedd yn raddol, ac yn y cyd-destun hwn, diben cymorth tai yw cynnal gallu'r unigolyn i reoli ei hawliau o ran tai yn annibynnol.

2.8.5 Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol fod yn ymwybodol y gall fod angen i rai pobl ailymgysylltu â gwasanaethau o bryd i’w gilydd er mwyn cynnal eu llesiant ac osgoi digartrefedd. Os bydd argyfwng yn digwydd, os bydd amgylchiadau’n newid neu os bydd llesiant rhywun yn gwaethygu, gallai’r gallu i ailddechrau manteisio ar gymorth llai dwys ar unwaith olygu na cheir dirywiad pellach ac na fydd angen ymyrryd mewn argyfwng.

2.8.6 Mae hefyd angen i gomisiynwyr awdurdodau lleol sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio’r Grant Cymorth Tai ar gyfer gwasanaethau perthnasol sy’n helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a’u llesiant, fel pobl hŷn a phobl ag anawsterau dysgu. Mae cymorth parhaus a ariennir drwy’r Grant Cymorth Tai yn hanfodol i lawer o bobl er mwyn gwarchod a chadw eu hannibyniaeth am gyhyd â phosibl ac osgoi mynd i leoliadau gofal mwy cyfyngol.

2.8.7 Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr lleol a phobl sydd wedi cael profiad uniongyrchol i ddeall y terfynau amser priodol ar gyfer gwasanaethau cymorth penodol.

### 2.9 Comisiynu a darparu gwasanaethau a gaiff eu llywio’n seicolegol

2.9.1 Mae angen i’r Grant Cymorth Tai gael effaith gynaliadwy ar achosion craidd digartrefedd, fel effeithiau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod neu fathau eraill o drawma. Dylai gwasanaethau gael eu comisiynu a’u darparu gan ddefnyddio dull sydd wedi’i lywio’n seicolegol sy’n cydnabod effaith trawma ac yn ymateb iddi. Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau sicrhau y caiff y broses o ddarparu gwasanaethau ei llywio gan bum elfen allweddol amgylcheddau sydd wedi’u llywio’n seicolegol.

- Fframwaith Seicolegol**:** Dylai’r broses o ddylunio, datblygu a gwerthuso gwasanaethu gael ei llywio gan fodel sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac wedi’i lywio gan drawma a dylai diwylliant y sefydliad fod yn fyfyriol gan ganolbwyntio ar y person.
- Cydberthnasau**:** Cydnabyddir mai cydberthnasau cymorth o ansawdd uchel yw’r prif ddull o ddarparu gwasanaethau’n effeithiol a chaiff staff yr amser i ddatblygu cydberthnasau ymddiriedus â phobl sy’n defnyddio

gwasanaethau. Defnyddir dulliau wedi'u llywio'n seicolegol ni waeth a yw manylion profiadau'r unigolyn o drawma yn hysbys ai peidio.

- Yr amgylchedd ffisegol a chymdeithasol**:** Mae amgylcheddau asesu a chymorth yn ddiogel, yn groesawgar ac yn hyblyg, gan alluogi rhyngweithio cadarnhaol, wedi'i lywio gan drawma rhwng staff a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
- Hyfforddiant a chymorth staff**:** Mae'r staff yn cael hyfforddiant a chymorth i wella eu dealltwriaeth o drawma a'r ffordd y gall hyn effeithio ar ymgysylltiad a chydberthynas pobl â gwasanaethau. Mae ymarfer myfyriol, dysgu parhaus, goruchwyliaeth broffesiynol a chymorth therapiwtig yn sicrhau bod y staff yn teimlo'n hyderus i weithio mewn ffordd sydd wedi'i llywio'n seicolegol.
- Tystiolaeth a dysgu**:** Caiff tystiolaeth ei chasglu er mwyn dangos effaith dulliau sydd wedi'u llywio'n seicolegol a chaiff hyn ei ddefnyddio i gefnogi dysgu parhaus a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau.

## 2.10 Gwasanaethau Cyngor a Gwybodaeth

2.10.1 Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw asesu, drwy'r broses gomisiynu, fod gwasanaethau'n cael eu darparu gan sicrhau ansawdd yn briodol.

2.10.2 Mae nifer o ddarparwyr cymorth sy'n cael cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai yn darparu gwybodaeth a chyngor i unigolion neu gartrefi ar faterion ariannol, cyllidebu, lles ac unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig â chael gafael ar gartref a'i gadw. Mae hyn yn gymwys lle mae'r cyngor yn ategu perthynas gefnogol sefydledig â'r unigolyn. Fel y nodir yn 2.7.1, nid yw'n gymwys lle mae'r gwasanaeth yn wasanaeth cyngor arbenigol yn unig. Mae'r paragraffau hyn yn nodi gofynion sicrwydd ansawdd gwasanaethau sy'n darparu cyngor a gwybodaeth er mwyn cael cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai.

2.10.3 Gellir sicrhau ansawdd darparwyr cyngor yng Nghymru o dan amrywiaeth (tua 20) o Safonau Ansawdd Cyngor annibynnol sy'n gweithredu ledled y DU. Mae'r safonau hyn yn cymhwyso dulliau, meini prawf a phrosesau asesu gwahanol er mwyn arfarnu ansawdd y gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a ddarperir gan ddarparwr cyngor. I sicrhau mwy o gysondeb o ran y diffiniad o 'wasanaeth cyngor o safon' a dealltwriaeth ohono, datblygodd Llywodraeth Cymru Y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru (IAQF). Mae'r IAQF yn cydnabod y gall gwybodaeth a chyngor fod ar sawl ffurf. Mae'r rhain wedi'u diffinio'n "Fathau" o Gyngor ac wedi'u rhannu'n bum pennawd eang. Gweler Atodiad D am ddiffiniadau llawn.

- Math Un – Gwybodaeth
- Math Dau – Cyfarwyddyd
- Math Tri – Cyngor
- Math Pedwar – Cyngor ynghylch Gwaith Achos
- Math Pump – Gwaith Achos Arbenigol

2.10.4 Rhaid i ddarparwyr y Grant Cymorth Tai sy'n darparu cyngor neu wasanaethau cyngor ynghylch gwaith achos (Mathau 3, 4 a 5) allu dangos bod ganddynt y systemau sicrhau ansawdd priodol ar waith i sicrhau eu bod

yn darparu cyngor cywir mewn modd priodol. Gall awdurdodau eu bodloni eu hunain fod hyn yn wir drwy gydnabod lle mae darparwr:
a) yn meddu ar Safon Ansawdd gydnabyddedig a gyhoeddwyd gan un o Gyrff Achrededig yr IAQF ar y lefel briodol ar gyfer y gwasanaeth y mae'n cynnig ei ddarparu;
b) os nad yw'r darparwr yn meddu ar Safon Ansawdd briodol a gyhoeddwyd gan un o Gyrff Achrededig yr IAQF ond mae'n meddu ar Safon Ansawdd arall sy'n briodol i'r math o gyngor a ddarperir ganddo, dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun fod y Safon Ansawdd hon yn rhoi sicrwydd ansawdd digonol;
c) os nad yw’r darparwr yn meddu ar unrhyw Safon Ansawdd sy'n briodol i'r math o gyngor a ddarperir ganddo, dylai'r awdurdod lleol gynnal ei wiriad sicrhau ansawdd ei hun drwy'r broses comisiynu ac adolygu er mwyn cadarnhau bod y darparwr yn gymwys i ddarparu gwasanaethau cyngor math 3, 4, neu 5. Fel rhan o'i wiriad, gallai'r awdurdod lleol ystyried a yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r meysydd ansawdd a bennir yn y Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru, sef bod y gwasanaeth:

- wedi'i reoli'n dda
- wedi'i gynllunio'n dda
- yn hygyrch, yn ofalgar ac yn ddiogel
- yn dilyn polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig priodol wrth ddarparu gwybodaeth a chyngor
- yn cael ei ddarparu gan staff cymwys
- yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog
- yn mesur canlyniadau priodol.

2.10.5 Mater i'r awdurdod lleol yw pennu'r systemau priodol i'w defnyddio er mwyn sicrhau ei hun a dyfarnu bod y darparwr yn gymwys i ddarparu'r math o wasanaeth cyngor y caiff ei ariannu i'w ddarparu.

<u>Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)</u>

2.10.6 Mae darparu cymorth cwnsela annibynnol ar gyllidebu a dyledion yn rhan annatod o'r Grant Cymorth Tai. Mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gwmni neu unigolyn sy'n darparu cymorth cwnsela ar ddyledion i ddefnyddwyr gael ei awdurdodi ganddo. Mae awdurdodau lleol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn ac nid oes angen caniatâd arnynt i ddarparu gwasanaethau cwnsela ar ddyledion.

2.10.7 Cyfrifoldeb y darparwr sy'n darparu'r cymorth cwnsela ar gyllidebu a dyledion yw cadarnhau gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a oes angen iddo gofrestru â'r Awdurdod, gan fod hynny'n dibynnu ar lefel y cyngor cwnsela a roddir.

2.10.8 Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw sicrhau ei hun, drwy'r broses gomisiynu, fod y darparwr wedi cwblhau'r gwiriadau angenrheidiol gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'i fod wedi'i gofrestru os oes angen.

# Pennod 3: Amgylchedd Ehangach y Grant Cymorth Tai

### 3.1 Deddfwriaeth berthnasol

3.1.1 Mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n diffinio'r amgylchedd lle caiff y Grant Cymorth Tai ei ddarparu y mae angen eu hystyried wrth ddyrannu'r Grant. Dylai gweithgarwch a ariennir drwy'r Grant ystyried a, lle y bo'n berthnasol, gefnogi'r gwaith o gyflawni'r canlynol yn effeithiol:

- Deddf Tai (Cymru) 2014[4]
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[5]
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (Deddf VAWDASV (Cymru) 2015)
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Mawrth 2021

3.1.2 Fel amod o'r Grant Cymorth Tai, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau statudol ac anstatudol a ddarperir yn fersiwn gyfredol y Cod Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016 ac unrhyw fersiynau dilynol.

3.1.3 Yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, dylid cydgysylltu'r gwasanaethau a ariennir ynghyd â'r polisi ar ddyraniadau, y polisi ar reoli tai, y defnydd o gofrestri tai, a throi allan, er mwyn cael pobl i'r cartrefi cywir yn y lle cywir gyda'r chymorth cywir i lwyddo.

### 3.2 Y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd

3.2.1 Mae'r Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd (a elwid gynt yn Fwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai) yn cynghori'r Gweinidog ar waith datblygu polisi mewn perthynas â'r sector Atal Digartrefedd a Chymorth Tai, a barn y sector ar effeithiolrwydd cyllid grant sy'n gysylltiedig ag atal digartrefedd o ran cyflawni yn erbyn eu hamcanion. Mae'r Bwrdd hefyd yn goruchwylio ac yn llywio'r datblygiad a'r modd mae'r Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yn cael ei gyflawni a'i weithredu ac a fydd yn sicrhau cynnydd amserol o'r agenda trawsnewid.

3.2.2 Mae Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector tai â chymorth a'r sector digartrefedd, ynghyd â phartneriaid allweddol.

[4] Ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer gwasanaethau statudol

### 3.3 Cydgysylltu gwasanaethau er mwyn cysylltu ag agendâu ehangach

3.3.1 Er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei dargedu'n briodol, dylai awdurdodau lleol sicrhau y caiff gwasanaethau eu comisiynu a'u cydgysylltu mewn modd hyblyg er mwyn gwella ac ategu gwasanaethau sydd y tu hwnt i'r Rhaglen.

3.3.2 Dyma enghreifftiau o'r hyn y dylai awdurdodau lleol ei ystyried wrth gomisiynu a chydgysylltu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni gwerth am arian.

**Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant**

- Sut mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cyd-fynd â'r ffordd y mae awdurdodau lleol yn datblygu gwasanaethau i atal pobl rhag troi at opsiynau iechyd a gofal mwy costus?

- Sut mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r agweddau sy'n gysylltiedig â thai yng Nghynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 a Chynllun Cyflawni a Gweithredu Anabledd Dysgu 2022-2026?

- Sut mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r agweddau sy'n gysylltiedig â thai ar Awtistiaeth: Canllaw i Ymarferwyr o fewn Gwasanaethau Tai a Digartrefedd?

- Sut mae gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r agweddau sy'n gysylltiedig â thai yn Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol 2025 i 2035?

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn hygyrch i'r rheini sy'n cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd meddwl, iechyd corfforol a chyffuriau ac alcohol – ac a yw'r staff sy'n cynnal yr asesiadau cychwynnol yn ymwybodol o'r gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai?

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ar gael i bawb yn y gymuned, p'un a oes ganddynt ddeiliadaeth ai peidio?

- Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer comisiynu integredig rhwng gwasanaethau ac ariannu'r drwy'r Grant Cymorth Tai, gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a gwasanaethau Iechyd?

**Y Grant Plant a Chymunedau**

- Pa wasanaethau cymorth y Grant Cymorth Tai y gellir eu comisiynu ar y cyd â rhaglenni'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn cyflawni canlyniadau cyffredin? Er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau fel cymorth i deuluoedd.

- Sut y gall gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai helpu pobl i gysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd?

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**

Mae Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 wedi gwella ein dealltwriaeth o gwmpas materion cysylltiedig trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn benodol, mynd a'r ddealltwriaeth honno y tu hwnt i gam-drin domestig yn unig.

- A yw awdurdodau yn sicrhau bod eu dull gweithredu yn gynhwysfawr o ran mynd i'r afael â'r amrywiaeth lawn o faterion a diwallu anghenion amrywiol holl oroeswyr VAWDASV?

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai wedi'u hintegreiddio â gwasanaethau VAWDASV eraill a blaenoriaethau'r strategaeth ar VAWDASV? Er enghraifft rhaglenni cyflawnwyr?

- A yw awdurdodau'n sicrhau bod eu dull gweithredu yn cyd-fynd â'u Strategaeth VAWDASV lleol/rhanbarthol, ac wedi ystyried y Canllaw VAWDASV?

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn gweithio mewn partneriaeth â thimau Opsiynau Tai awdurdodau lleol er mwyn atal digartrefedd ac a ydynt yn rhan o'r model ehangach i ymyrryd yn gynnar ac atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, e.e. drwy wella diogelwch?

- A yw awdurdodau lleol yn mabwysiadu egwyddorion comisiynu integredig â phartneriaid ehangach yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau VAWDASV er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig a chydweithredol o gomisiynu gwasanaethau effeithiol a chyson i gefnogi goroeswyr VAWDASV?

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ac awdurdodau lleol yn ystyried pryderon diogelwch a diogelu wrth gasglu data (er enghraifft cyfeiriadau, enwau preswylwyr ac ati) mewn perthynas â llochesi a mathau eraill o llety a feddiannir gan oroeswyr VAWDASV?

**Y Gwasanaeth Prawf a Chyfiawnder Ieuenctid**

- Pa wasanaethau tai a chymorth y gellir eu comisiynu ar y cyd ag asiantaethau cyfiawnder troseddol (e.e. i helpu i weithredu'r Llwybr i Garcharorion)?

- Sut y gall gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai gefnogi'r bobl ddigartref hynny sy'n gadael y carchar, gan gynnwys pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol, i ailsefydlu eu hunain yn y gymuned, gostwng cyfraddau aildroseddu a lleihau costau?

- Sut gall gwasanaethau Grant Cymorth Tai gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu a'u cadw mewn cartref sefydlog (e.e. drwy gyfryngu teuluol neu gymorth tenantiaeth), a allai eu hatal rhag mynd i mewn i'r system droseddol?

- Sut y gall pobl (yn enwedig menywod), sy'n gadael y carchar yn Lloegr ac yn dychwelyd i Gymru, i ailsefydlu eu hunain?

**Camddefnyddio Sylweddau**

- Sut y gall gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai gyfrannu at Gynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys camau wedi'u cynllunio i wella gwaith partneriaeth â gwasanaethau tai a digartrefedd?

- Pa gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu â Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau er mwyn nodi cyfleoedd posibl i gydgysylltu gwasanaethau lle bo angen, er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i ddiwallu anghenion unigolion?

**Pobl Ifanc**

- Sut y gall gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai gyfrannu tuag at weithredu'r Fframwaith Ymgysylltiad a Chynnydd Ieuenctid a chefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref?

- Pa gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu â Gwasanaethau Ieuenctid a'r Cydgysylltydd Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc a ariennir gan y Grant Cymorth Ieuenctid, er mwyn cyflawni ymyrraeth gynnar a gwaith atal digartrefedd.

- Sut y gall gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai gyfrannu tuag at Gynllun Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys blaenoriaeth y dylai 'Pob plentyn a pherson ifanc fyw mewn cartref da a diogel

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

- A yw gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn hygyrch i grwpiau wedi'u hymyleiddio?

- Ydych chi'n deall i ba raddau y caiff gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai eu defnyddio gan bobl sydd â nodweddion gwarchodedig?

- Ydych chi wedi ystyried y nodau sy'n gysylltiedig â thai yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2022) (o dan adran 7 – Cartrefi a Lleoedd) er mwyn cyflawni'r nod gyffredinol bod pobl Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn gallu byw mewn cartrefi gweddus, diogel a fforddiadwy sy'n diwallu natur amrywiol eu hanghenion?

# Pennod 4: Cynllunio strategol

## 4.1 Diben y broses cynllunio strategol

4.1.1 Mae gwaith cynllunio effeithiol yn allweddol wrth gomisiynu a chaffael gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai er mwyn sicrhau y cyflawnir y canlyniadau cywir i atal digartrefedd, i gefnogi anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny a sicrhau'r gwerth gorau am arian.

4.1.2 Mae creu'r Grant Cymorth Tai yn gyfle i ddatblygu dull cynllunio cydlynol a symlach ar gyfer y system dai gyfan er mwyn atal digartrefedd a darparu'r cymorth angenrheidiol i sicrhau bod pobl yn cael llety priodol. Mae hyn yn golygu y dylai awdurdodau lleol datblygu strategaeth unigol, a elwir yn Strategaeth y Rhaglen Gymorth Tai, sy'n ymgorffori dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i lunio strategaeth ddigartrefedd a'r gofynion cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Felly, dylai'r 'strategaeth unigol' ar gyfer atal digartrefedd a chymorth digartrefedd a'r broses o ddatblygu'r strategaeth, a ddisgrifir yn y canllawiau hyn, gael ei defnyddio i lywio dull gweithredu cyffredinol awdurdod lleol.

4.1.3 O ganlyniad, dylai awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai fel rhan o 'Raglen Cymorth Tai' cyffredinol sy'n cwmpasu'r ddyletswydd statudol o ran digartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw a gwasanaethau atal digartrefedd anstatudol[6] a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'n bwysig bod cynlluniau'n cydnabod y dibyniaethau yn y system tai gyfan yn ogystal â'r rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddatblygu ymateb cynhwysfawr a chyfannol. Nod y broses cynllunio strategol a nodir yn y bennod hon ac yn atodiad A yw hwyluso hyn.

## 4.2 Y broses cynllunio strategol

<u>Asesu Anghenion</u>

4.2.1 Dylai awdurdodau lleol gynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion bob pedair blynedd, ynghyd ag adolygiad llai manwl bob dwy flynedd. Mae'r asesiad hwn yn ddatganiad o'r hyn y mae'r awdurdod yn ei wybod ynghylch yr angen am wasanaethau atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai, a'r galw amdanynt yn y dyfodol. Mae'r datganiad yn rhoi darlun penodol o'r hyn a wyddir, ond dylid pwysleisio y gellir adeiladu'r darlun hwn drwy ddefnyddio'r dystiolaeth o angen sy'n deillio o ddulliau eraill. Hynny yw, er bod y datganiad yn unigryw, nid oes angen i'r data a'r dadansoddiad ohono fod yn benodol. Dylai'r asesiad gwmpasu'r gofyniad statudol ar gyfer adolygiad o ddigartrefedd yn ogystal â'r asesiad llawn ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Dylai'r asesiad gael ei lywio gan ddefnyddio'r data canlynol:

- Asesiad o anghenion y boblogaeth
- Asesiad o lesiant yr awdurdod lleol

[6] Dylid ystyried bod anstatudol yn y cyd-destun hwn y tu hwnt i ddyletswyddau statudol penodol awdurdodau lleol o ran digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

- Ystadegau digartrefedd a data eraill ym maes tai fel rhestrau aros.
- Mynegai amddifadedd lluosog Cymru
- Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau
- Asesiadau o anghenion VAWDASV rhanbarthol
- Unrhyw ymchwil/cyhoeddiadau cenedlaethol perthnasol
- Data ar ganlyniadau
- Data ar anghenion gan ddarparwyr, paneli porth
- Data ar anghenion nas diwallwyd dros y 12 mis diwethaf gan ddarparwyr, adolygiadau digartrefedd

4.2.2 Dylai awdurdodau lleol gynhyrchu ‘Datganiad o Angen’ yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o anghenion. Dylai'r datganiad nodi'r gofynion nawr ac yn y dyfodol a dylai gynnwys anghenion rhanbarthol lle caiff yr anghenion eu diwallu gan yr awdurdod lleol. Yn ogystal, dylai'r datganiad nodi sut y caiff anghenion statudol a nodwyd eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol. Mater i'r awdurdod yw penderfynu ar fformat y datganiad hwn a gellir ei lunio ar y cyd.

4.2.3 Dylai'r asesiad o anghenion gael ei ddefnyddio gan awdurdodau i lywio datblygiad o Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai, gan gynnwys yr adolygiad canol cyfnod bob dwy flynedd, yn ogystal â Chynllun Cyflawni’r Grant Cymorth Tai.

<u>Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai</u>

4.2.4 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Strategaeth bob pedair blynedd ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai, ynghyd ag adolygiad canol cyfnod bob dwy flynedd, a fydd yn amlinellu cyfeiriad strategol yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth tai. Dylai hyn ddarparu un golwg strategol o ddull gweithredu’r awdurdodau lleol ar gyfer atal digartrefedd a darparu gwasanaethau cymorth tai. Byddai hyn yn cynnwys swyddogaethau statudol o ran digartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw yn ogystal â gwasanaethau atal anstatudol a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

4.2.5 Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai - fel yr unig ddogfen strategol ar gymorth tai ac atal digartrefedd – hefyd yn bodloni’r gofynion statudol cyfredol ar gyfer strategaeth ar ddigartrefedd, o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Nid oes gofyniad i lunio strategaeth ar wahân.

4.2.6 Dylai gwaith cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ystyried sut y gall gefnogi’r broses drawsnewidiol sydd ei hangen i symud i ddull gweithredu sy’n ailgartrefu pobl yn gyflym ynghyd â’r canllawiau penodol ar hyn sydd i gael eu darparu i awdurdodau lleol.

4.2.7 Nodir isod y gofynion **sylfaenol** o ran yr wybodaeth i’w chynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a dylai awdurdodau ddefnyddio templed a’r canllaw ar wahân a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

| Penawdau'r adrannau | Cynnwys |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | Diben a chwmpas y Strategaeth |
| 2. Asesiad o Anghenion | Crynodeb o'r ffordd y mae'r asesiad o anghenion a'r adolygiad o ddigartrefedd wedi llywio'r blaenoriaethau strategol.<br><br>Amlinellu:<br>- bod asesiad o anghenion wedi'i gynnal a'r broses a gymerwyd. Rhoi dolen i'r ddogfen 'Asesiad o Angen'.<br>- rhestri'r ffynonellau tystiolaeth/ gwybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer yr asesiad o anghenion (gweler 4.2.1. uchod).<br>- y prif ganfyddiadau/materion a nodwyd o'r asesiad o anghenion.<br>- darparu casgliad cyffredinol o'r asesiad o anghenion. |
| 3. Blaenoriaethau Strategol | Amlinellu blaenoriaethau strategol yr awdurdod lleol y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai a gwasanaethau atal digartrefedd.<br><br>Dylai hefyd gynnwys<br>• Amcanion strategol rhanbarthol mewn perthynas â chymorth sy'n gysylltiedig â thai y cytunwyd arnynt â phartneriaid a'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol.<br>• Rhaid i un o'r blaenoriaethau fod ynghylch eich dull o fesurau atal digartrefedd fel y nodir yn Neddf Tai (Cymru) 2014.<br>• Rhaid i un o'r blaenoriaethau fod ynghylch y newid o ran cyflwyno ailgartrefu'n gyflym gan yr awdurdod lleol. |
| 4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Crynodeb o'r ffordd y mae tystiolaeth a gwybodaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartrefedd yn ogystal â thystiolaeth a gwybodaeth gan randdeiliaid eraill wedi llywio'r blaenoriaethau strategol. Dylai hyn hefyd gyfeirio at y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol |

| | |
|---|---|
| | (Cymru) 2015. Eglurhad o ran y systemau a ddefnyddiwyd. |
| 5. Asesiadau o'r Effaith | Rhestri'r asesiadau o'r effaith a wnaed, a chrynodeb o unrhyw effeithiau cadarnhahol a/neu negyddol a nodwyd ar gyfer pob asesiad ac unrhyw gamau i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>I gynnwys o leiaf:<br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>• Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg<br>• Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant<br>• Unrhyw asesiadau effaith ychwanegol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol. |
| 6. Gweithredu, monitro ac adolygu'r Strategaeth | Nodwch:<br>• sut y bydd yr awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol fel y rheini ym meysydd iechyd, gofal a chyfiawnder troseddol, er mwyn cyflawni a gwneud y gorau o effaith y strategaeth<br>• ba ffynonellau ariannu eraill fydd ar gael i gyflawni'r Strategaeth.<br>• sut y bydd yr awdurdod yn monitro, adolygu a gwerthuso'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu yn lleol (yn Atodiad A). |
| 7. Atodiad A: Cynllun Gweithredu | Darparu cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau strategol yn adran 2. Dylai hyn hefyd gynnwys blaenoriaethau rhanbarthol os bydd camau gweithredu'n cael eu cymryd gan yr awdurdod lleol. |
| 8. Atodiad B | Cynllun Pontio ar Ailgartrefu Cyflym |

4.2.8 Gellir datblygu'r Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ar lefel leol gan un awdurdod lleol, neu rhwng dau neu fwy o awdurdodau lleol, er mwyn datblygu strategaeth leol ar y cyd. Dylai'r Strategaeth hon felly cynnwys yr holl wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a ddarperir ym mhob ardal. Mae hyn yn wahanol i'r 'Datganiad Rhanbarthol' i'w gynhyrchu gan Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol. Mae'r Datganiad Rhanbarthol yn mynd i'r afael â'r pedwar categori o gydweithredu rhanbarthol a nodir ym Mhennod 5. Mae'r rhain yn wahanol i ddiben Strategaeth y Grant Cymorth Tai.

4.2.9 Disgwylir i Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai gyntaf gael ei datblygu, ac yn barod i’w gweithredu o 1 Ebrill 2022, gan gwmpasu’r cyfnod 2022-2026.

4.2.10 Rhaid cyhoeddi’r Strategaeth derfynol ar wefan yr awdurdod lleol.

Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai

4.2.11 Dylai awdurdodau lleol ddatblygu Cynllun Cyflawni lleol ar gyfer y Grant Cymorth Tai, a ddylai nodi'r ffordd y maent yn bwriadu cyflawni blaenoriaethau Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai drwy'r Grant Cymorth Tai, ac unrhyw flaenoriaethau cyflawni eraill ar gyfer y Grant Cymorth Tai, gan gynnwys eu bwriadau o ran gwariant a chomisiynu. O fis Ebrill 2022 dylai’r Cynllun Cyflawni gynnwys cyfnod o 3 blynedd wedi’i alinio â setliad cyllideb tair blynedd ar gyfer yr awdurdodau (h.y. Ebrill 2022 hyd at Mawrth 2025).

4.2.12 Dylai'r Cynllun Cyflawni gynnwys y wybodaeth ganlynol:

| **Penawdau'r adrannau** | **Cynnwys** |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | Diben a chwmpas y Cynllun |
| 2. Asesiad o Anghenion | Crynodeb o sut mae’r asesiad o anghenion (gweler 4.2.1) a’r adolygiad digartrefedd wedi llunio blaenoriaethau Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai.<br><br>Nid oes angen i Awdurdodau Lleol ddyblygu gwybodaeth sydd eisoes wedi’i chynnwys yn y Datganiad o Anghenion neu asesiad Ailgartrefu Cyflym o anghenion cymorth, ond yn hytrach crynhoi’r prif ganfyddiadau sy’n benodol i gyflawni blaenoriaethau’r Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn i ddod. |
| 3. Blaenoriaethau Cyflawni | Amlinellu:<br><br>• sut y bydd yr awdurdod lleol yn cyflawni blaenoriaethau’r Grant Cymorth Tai a nodwyd yn y Strategaeth;<br>• unrhyw flaenoriaethau cyflawni ychwanegol, ac unrhyw anghenion parhaus neu brosiectau/gweithgareddau newydd sy’n mynd i gael eu bodloni trwy’r Grant Cymorth Tai i ddarparu gwasanaethau y Grant yn effeithiol; a<br>• unrhyw brosiectau rhanbarthol neu brosiectau ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill. |

| | |
|---|---|
| | Dylai'r adran hon roi disgrifiad naratif o wariant yn erbyn pob math o brosiect fel y nodir yng nghynllun gwariant y Grant Cymorth Tai. |
| 4. Ymgysylltu â rhanddeiliaid | Crynodeb o'r ffordd y mae tystiolaeth a gwybodaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a rhanddeiliaid eraill wedi llywio'r blaenoriaethau cyflawni. Dylai hyn hefyd gyfeirio at y pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Eglurhad o ran y systemau a ddefnyddiwyd.<br><br>Y ffordd y mae'r awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid allweddol fel iechyd, gofal a chyfiawnder troseddol i sicrhau bod y Cynllun Cyflawni yn cael yr effaith fwyaf posibl. |
| 5. Atodiad A: Asesiadau o'r Effaith | Rhestri'r asesiadau o'r effaith a wnaed ar gyfer Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai a darparu crynodeb o unrhyw effeithiau cadarnhahol a/neu negyddol a nodwyd ar gyfer pob asesiad ac unrhyw gamau i'w cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol. I gynnwys o leiaf:<br><br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>• Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg<br>• Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant<br>• Unrhyw asesiadau effaith ychwanegol sy'n ofynnol gan yr awdurdod lleol. |
| 6. Atodiad B: Cynllun Gwariant Blynyddol Lleol | Amlinellu bwriadau gwario'r Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn |
| 7. Atodiad C: Cynllun Comisiynu Lleol | Darparu trosolwg o'r argymhellion ar gyfer comisiynu, ailfodelu a datgomisiynu ar gyfer y flwyddyn/blynyddoedd ariannol ganlynol. |
| 8. Atodiad D: Digartrefedd Dyletswyddau statudol | Crynodeb o sut y bydd yr awdurod lleol yn cyflawni eu dylestwwyddau statudol o ran digartrefedd. |

Cais am gyllid blynyddol drwy'r Grant Cymorth Tai

4.2.13 Dylai awdurdodau lleol gyflwyno’r adrannau canlynol o’u Cynllun Cyflawni i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn, i’w cymeradwyo (nid oes angen dogfen ar wahân)

- Cyflawni Blaenoriaethau’r Grant – tynnu sylw at unrhyw newidiadau i’r Blaenoriaethu Cyflawni o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol
- Cynllun Gwariant Lleol
- Naratif ar unrhyw amrywiadau uwchlaw 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Ymgynghori ac ymgysylltu

4.2.14 Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddatblygu eu Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai a'u Chynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Dylent ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid canlynol yn ystod y broses honno. Rhaid i'r gwaith ymgysylltu hwn gael ei wneud yn unol â'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Pum Ffordd o Weithio.

- Iechyd
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Prawf
- Byrddau Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau
- Grant Cymunedau a Phlant
- Darparwyr
- Landlordiaid
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai
- Gofalwyr a theuluoedd y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai

4.2.15 Yr awdurdod lleol sy'n penderfynu sut y cyflawnir hyn a pha systemau a ddefnyddir, ond gallai gynnwys sefydlu grŵp cynllunio neu gynnal digwyddiad(au)ymgysylltu â rhanddeiliaid blynyddol. Rhaid i'r awdurdod lleol nodi tystiolaeth o'r ffordd y mae wedi ymgysylltu yn ei Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai a'i Gynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

Egwyddorion ymgysylltu â darparwyr cymorth a landlordiaid

4.2.16 Pan fydd awdurdodau lleol yn ymgysylltu â darparwyr a landlordiaid, dylent ystyried yr egwyddorion canlynol:

- Diben ymgysylltu yw casglu tystiolaeth sy’n llywio dulliau cynllunio a darparu gwasanaethau
- Rhaid i awdurdodau fod yn atebol am y ffordd y maent wedi ymgysylltu
- Caiff yr holl randdeiliaid, yn cynnwys darparwyr, eu cydnabod am eu gwybodaeth a’u harbenigedd

- Cynhelir ymgysylltiad yn ysbryd partneriaeth a chydweithredu
- Mae ymgysylltiad yn ystyrlon ac yn dylanwadu ar benderfyniadau yn glir
- Dylai fod cyfleoedd i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol drwy gydol y broses
- Dylai'r dulliau o ymgysylltu sicrhau bod darparwyr yn cael digon o wybodaeth, rhybudd ac amser i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon
- Mae ymgysylltiad yn digwydd cyn ac yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni

<u>Gofynion cyhoeddi</u>

4.2.17 Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi eu Hasesiad o Anghenion a'u Datganiad o Anghenion ar gyfer y Grant Cymorth Tai, eu Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai a'u Cynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai ar eu gwefan.

# Pennod 5: Gwaith/tirwedd rhanbarthol

## 5.1 Strwythur Rhanbarthol

5.1.1 Mae gwaith rhanbarthol yn rhan bwysig o'r broses o wella gwasanaethau. Rhaid i awdurdodau lleol weithio gydag awdurdodau cyfagos er mwyn ffurfio Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol sy'n cyd-fynd ag ardal y Byrddau Iechyd[7]. Nid oes gan Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol rôl lywodraethu o ran y Grant Cymorth Tai, ond maent yn fforwm ar gyfer gwaith cydweithredol ac ymgysylltu. Nid yw awdurdodau unigol yn atebol i Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd disgwyl i awdurdodau ddangos y ffordd y maent wedi ymgysylltu â Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol a'r ffordd y mae eu cynlluniau eu hunain yn adlewyrchu'r ffordd y maent yn cydweithio ag awdurdodau eraill a phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus.

5.1.2 Gall fod amgylchiadau lle y bydd awdurdod lleol am weithio mewn ffordd gydweithredol ag awdurdod lleol arall y tu allan i'w strwythur rhanbarthol diffiniedig, a gall wneud hynny. Fodd bynnag, byddai hyn yn ogystal â'r gofyniad i awdurdodau lleol gymryd rhan yn eu Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol eu hunain ynghyd â thrafodaethau rhanbarthol. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol wedi ystyried eu heffaith strategol ar yr un ôl-troed â Byrddau Iechyd Lleol hyd yn oed lle ceir strwythurau cydweithredol ychwanegol.

5.1.3 Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fodd i ddatblygu gwaith cydweithredol rhwng gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Felly, dylai Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol feithrin cydberthynas waith agos â nhw er mwyn comisiynu lle y bo'n briodol, cynllunio a ganolbwyntio gwasanaethau ar y cyd fel y gellir manteisio i'r eithaf ar ddibenion ategol gwasanaethau Tai, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a gefnogir.

5.1.4 Yn y cyfamser, bydd disgwyl i Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol gydweithio mor agos â phosibl â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a dylent sefydlu cydberthynas â'r Cynrychiolwyr Tai ar y Byrddau hynny. Wrth wneud hyn, dylent geisio llywio'r sgwrs am waith cydweithredol, a nodi opsiynau i integreiddio gwasanaethau'n well. Lle y bo'n bosibl, gall hyn gynnwys integreiddio'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, fel y'i diffinnir yn y canllawiau hyn, â strwythurau priodol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ond gan ddal i gynnal uniondeb a chanlyniadau arfaethedig y Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae trefniadau wedi'u gadael yn hyblyg er mwyn i bob rhanbarth benderfynu.

5.1.5 Mae'r Grwpiau Cydweithredol yn perthyn i'r awdurdodau lleol a'u creodd ac iddynt hwy fel cydweithfa y maent yn atebol. Dylai gwaith rhanbarthol gynnig

[7] Caiff un Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol ei ffurfio i gwmpasu Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan gynnwys ardaloedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

fforwm i awdurdodau lleol gyflawni'r pethau hynny a gaiff eu gwneud orau yn rhanbarthol. Gellir categoreiddio’r rhain fel a ganlyn:

- 1: Datblygu gwasanaethau arbenigol nad oes màs critigol ar eu cyfer yn lleol
- 2: Datblygu gwasanaethau rhanbarthol lle y gellir cyfiawnhau hynny ar sail arbedion maint
- 3: Sicrhau gwelliannau o ran cyflawni drwy gydweithio
- 4: Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill.

5.1.6 Dylai Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol gyflwyno datganiad rhanbarthol blynyddol erbyn diwedd mis Ebrill bob blwyddyn sy'n nodi'r gwaith cydweithredol a wnaed ac amlinellu mewn cynllun gwaith y cyfleoedd a'r heriau allweddol y bydd y grŵp yn rhoi blaenoriaeth iddynt yn ystod y flwyddyn nesaf. Dylent hefyd gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis ynghylch eu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn eu Datganiad Blynyddol a’r cynllun gwaith.

5.1.7 Argymhellir y dylai aelodaeth y Grŵp Cydweithredu Cymorth Tai Rhanbarthol o leiaf gynnwys y rhanddeiliaid canlynol, ond gall trefniadau ynghylch sut maent yn ymgysylltu â’r grŵp fod yn hyblyg yn unol â’r hyn sy’n addas ar gyfer anghenion partner a rhanbarthol:

- Arweinwyr strategol yr awdurdod lleol ar gyfer y Grant Cymorth Tai ac atal digartrefedd
- Cynrychiolydd prawf
- Cynrychiolydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Darparwyr cymorth a landlordiaid. Dylid ceisio cymorth Tai Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru wrth drefnu cynrychiolaeth briodol.
- Cynrychiolydd Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau
- Cynrychiolydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Llais defnyddwyr gwasanaethau
- Cynrychiolydd o’r sector rhentu preifat
- Cynrychiolydd y Grant Plant a Chymunedau.

5.1.8 Dylai Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol hefyd ystyried sut i ymgysylltu â chynrychiolwyr o’r sectorau perthnasol eraill fel cyfiawnder ieuenctid ac iechyd meddwl; ac ystyried eu cynnwys pan fydd angen er mwyn llywio’r agenda.

5.1.9 Dylai aelodau etholedig arfer rheolaeth wleidyddol yn briodol dros y broses a gellir hwyluso hyn drwy ddull y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, gall y cyfraniad y gall aelodau etholedig ei wneud fod yn ehangach a gall fod adegau pan fydd y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol am wahodd aelodau etholedig i drafod materion penodol.

## 5.2 Rôl y Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol

5.2.1 Gall Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu dyraniad Grant Cymorth Tai i ariannu swydd Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol i gefnogi'r gwaith o weinyddu a rheoli’r Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, ac i hwyluso'r

broses o ddarparu gwasanaethau rhanbarthol mewn modd cydweithredol drwy ddwyn ynghyd bartneriaid i nodi ac ymateb i gyfleoedd i wella canlyniadau drwy gydweithio. Caiff gwaith y Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol eu cyfarwyddo gan Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, ac arweinwyr y Grant Cymorth Tai yr awdurdod lleol yn y rhanbarth (e.e. mewn perthynas â phrosiectau rhanbarthol), a byddant yn atebol i awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Gall cyfrifoldebau penodol swydd y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol amrywio yn ôl y rhanbarth er mwyn diwallu anghenion rhanbarthol.

5.2.2 Bydd disgwyl i Gydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol gysylltu a chydweithio â chydgysylltwyr Partneriaethau Rhanbarthol a Lleol, yn enwedig cydgysylltwyr y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, er mwyn sicrhau cysondeb strategol a rhannu gwybodaeth.

5.2.3 Dylai Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol ddefnyddio'r cyfle i fynd i gyfarfodydd Rhwydwaith Cymorth Tai perthnasol i allu rhannu arferion da a meddu ar ddealltwriaeth o faterion sy'n codi ac unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer awdurdodau lleol a all effeithio ar weithio rhanbarthol.

# Pennod 6: Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

## 6.1 Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth

6.1.1 Disgwylir y bydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai wrth wraidd pob agwedd ar y Rhaglen Cymorth Tai, o gynllunio, comisiynu a chaffael i lywio gwasanaethau. Er mwyn cyflawni hyn, dylai comisiynwyr a darparwyr ddatblygu amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai, ac a fyddai'n hoffi cael rhagor o gyfleoedd i leisio eu barn, yn gallu gwneud hynny ac y byddant yn cael adborth ar effaith eu cyfraniad.

6.1.2 Wrth gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, rhaid i awdurdodau lleol a darparwyr sicrhau bod llais clir i bob defnyddiwr gwasanaeth, yn cynnwys grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a'u hymyleiddio.

6.1.3 Dylai awdurdodau lleol a darparwyr gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaethau gan ddefnyddio cyfrwng neu iaith sy'n briodol i amgylchiadau'r unigolyn. Yn benodol, dylid rhoi ystyriaeth ddyledus i ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg.

## 6.2 Rôl yr awdurdod lleol wrth gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth

6.2.1 Dylai pob awdurdod lleol wneud y canlynol, o leiaf:

- cyflwyno tystiolaeth yng nghynllun cyflawni y Grant Cymorth Tai ac yn nghynllun Strategol y Rhaglen Grant Cymorth Tai o'r effaith y mae cyfraniad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai yn ei chael ar wasanaethau;
- sicrhau bod profiad y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yn cyfrannu at y gwelliannau i wasanaethau a gwaith datblygu prosiectau y cytunwyd arnynt yng Nghynllun Strategol y Rhaglen Cymorth Tai a'r cynllun cyflawni blynyddol lleol
- sicrhau y caiff sylwadau gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai eu hystyried wrth ddatblygu manylebau gwasanaethau ac wrth gomisiynu, ailfodelu a datgomisiynu gwasanaethau, fel y gellir nodi ac ystyried unrhyw ganlyniadau anfwriadol
- sicrhau bod contractau ar gyfer gwasanaethau'n cynnwys yr angen i ddarparwyr gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai wrth ddatblygu, monitro a gwerthuso gwasanaethau. Hefyd, dylid ymestyn cyfranogiad pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai i bob agwedd ar wasanaethau, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, recriwtio staff
- dangos y ffordd y maent wedi cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai wrth ddatblygu, comisiynu, monitro a gwerthuso gwasanaethau

- rhoi adborth i bobl sydd wedi ymgysylltu ar y ffordd y maent wedi dylanwadu ar gynllunio, datblygu, comisiynu a gwerthuso gwasanaethau.

## 6.3 Rôl y darparwr wrth gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth

6.3.1 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod contractau ar gyfer gwasanaethau yn cynnwys yr angen i ddarparwyr gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai wrth ddatblygu, monitro a gwerthuso gwasanaethau. Argymhellir y dylai hyn gynnwys, ymhlith pethau eraill, yr angen i ddarparwyr sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yn cael y canlynol:

- cyfleoedd i gyfrannu at wasanaethau, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol, mewn amrywiaeth o ffyrdd, boed hynny'n barhaus neu ar sail ad-hoc
- cyfleoedd i gyfrannu at wasanaethau sy’n amrywiol i sicrhau mynediad cyfartal i bawb
- cyfleoedd i gyfrannau at bob agwedd ar wasanaethau ac i lywio gwasanaethau, gan gynnwys meysydd fel recriwtio staff
- cymorth priodol i gael hyfforddiant er mwyn rhoi'r hyder iddynt gymryd rhan
- eu cefnogi i weithio gydag awdurdodau lleol i gomisiynu, ailfodelu a datgomisiynu gwasanaethau
- adborth ar ganlyniadau eu cyfraniad.

## 6.4 Egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau

6.4.1 Dylai awdurdodau lleol a darparwyr roi ystyriaeth ddyledus i’r egwyddorion canlynol wrth ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau:

- dylai awdurdodau lleol a darparwyr fynd ati i geisio ymgysylltu â phob llais
- bod pobl sy’n defnyddio gwasanaethau yn cael eu trin â pharch a’u cydnabod am eu gwybodaeth a’u harbenigedd
- bod eiriolaeth effeithiol yn cael ei darparu i bobl y mae angen cymorth arnynt i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed
- bod ymgysylltu yn ystyrlon ac yn dylanwadu ar benderfyniadau yn glir
- dylid cael cyfleoedd i ymgysylltu mewn ffyrdd gwahanol drwy gydol y broses, gan sicrhau cydraddoldeb mynediad i bawb
- dylai’r broses ymgysylltu sicrhau bod darparwyr yn cael digon o wybodaeth, rhybudd ac amser i sicrhau bod pobl sy’n defnyddio eu gwasanaethau yn gallu ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon
- bod ymgysylltu’n digwydd mewn da bryd i allu dylanwadu ar benderfyniadau.

## 6.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

6.5.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (“y Ddeddf”) yn darparu'r sail i ysgogi math gwahanol o wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gyda phum ffordd o weithio (hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, a chynnwys) i lywio'r ffordd y dylai gwasanaethau cyhoeddus weithio er budd pobl.

6.5.2 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol yn ôl y gyfraith i gyrff cyhoeddus wneud yr hyn y maent yn ei wneud mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'n disgwyl iddynt:

- gydweithio'n well
- cynnwys pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau
- edrych i'r dyfodol yn ogystal â chanolbwyntio ar y presennol
- cymryd camau i geisio atal problemau rhag gwaethygu – neu hyd yn oed eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

6.5.3 Dylai awdurdodau lleol ystyried sut y gellir cynllunio a chomisiynu gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai er mwyn gwella llesiant pobl. Mae Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer dylunio gwasanaethau yn disgrifio'r hyn y mae'r pum ffordd o weithio yn ei olygu yn ymarferol o ran dylunio gwasanaethau, a gellir ei ddefnyddio wrth ddylunio a goruchwylio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau er mwyn annog pobl i feddwl, cynnal trafodaethau strwythuredig a gwneud penderfyniadau am ffyrdd newydd o weithio, er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau gwydn sy'n ceisio gwella llesiant pobl, nawr ac yn y dyfodol.

# Pennod 7: Comisiynu a chaffael gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

## 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol a'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer comisiynu a chaffael gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'n nodi'r paramedrau y dylid comisiynu gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ynddynt o fewn trosolwg o egwyddorion arfer da wrth gomisiynu gwasanaethau.

7.1.2 Mae rhan hon o'r canllawiau yn canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu arferion comisiynu a chaffael effeithiol., Dylai'r gwaith datblygu a'r mwyafrif o'r gwaith arloesi ddigwydd ar y cam cynllunio a chomisiynu, a dylai'r comisiynwyr weithio gyda'r rhanddeiliaid i gynllunio gwasanaeth priodol sy'n ymateb i anghenion y bobl y mae angen cymorth sy’n gysylltiedig â thai arnynt ac yn cyflawni eu canlyniadau gofynnol. Pan fydd y comisiynwyr wedi egluro gofynion eu gwasanaeth, dylent weithio gyda'u cydweithwyr ym maes caffael, y gyfraith a meysydd eraill er mwyn cynllunio'r broses gaffael fwyaf effeithiol i sicrhau'r gwasanaeth a nodwyd.

7.1.3 Dylai gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai ganolbwyntio ar y canlyniadau lles y mae pobl am eu cyflawni, ac ar hawliau a chyfrifoldebau pobl, gan y bydd hyn yn arwain at well profiadau a gwasanaethau gwell i bobl. Rhaid i gomisiynwyr ystyried canlyniadau llesiant personol pobl a chydgynhyrchu datrysiadau gyda’r bobl eu hunain. Dylai'r asesiad o anghenion ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i unigolyn ac ar amgylchiadau personol unigolyn. Dros amser, mae arferion caffael wedi esblygu i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau personol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn well trwy weithlu cynaliadwy o ansawdd uchel. Trwy flaenoriaethu contractau tymor hwy, lle bo hynny'n briodol, a dulliau mwy strategol, mae comisiynwyr mewn sefyllfa well i symleiddio'r ddarpariaeth gwasanaeth a gwella parhad gwasanaeth, gwneud y mwyaf o werth am arian, a lleihau straen i ddefnyddwyr gwasanaeth a staff cymorth. Mae'r newid hwn hefyd wedi caniatáu i ddarparwyr ganolbwyntio mwy ar ddarparu cefnogaeth ardderchog gan feithrin sefydlogrwydd ac effeithlonrwydd y gweithlu i gomisiynwyr. Mae dull cyfoes sy'n canolbwyntio ar unigolion a chanlyniadau yn cefnogi cydgynhyrchu gwasanaethau, lle mae comisiynwyr yn gweithio gydag unigolion i nodi'r canlyniadau gofynnol ac yn galluogi darparwyr i arfer mwy o ymreolaeth i weithio gyda nhw i benderfynu sut y gellir cyflawni'r canlyniadau hyn. Wrth i ni symud ymlaen, rydym yn disgwyl i gomisiynwyr barhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr caffael a chyfreithiol, yn ogystal â chyflenwyr a defnyddwyr gwasanaeth, i ddylunio'r trefniadau caffael mwyaf effeithiol a all sicrhau'r canlyniadau lles angenrheidiol.

7.1.4 Dylai comisiynwyr awdurdodau lleol ystyried pa berthynas ariannol y maent am ei chael â darparwyr, yn enwedig darparwyr trydydd sector, a rhaid i gynlluniau comisiynu adlewyrchu'r dulliau mwyaf priodol o gaffael a datblygu marchnad yn eu hardal leol. Er enghraifft, defnyddio trefniadau grant neu

gaffael? Gall grantiau fod yn fecanwaith priodol ar gyfer Grant Cymorth Tai, yn enwedig wrth dreialu menter newydd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnig cyngor ar sut i wahaniaethu rhwng yr amgylchiadau lle mae grant yn briodol a lle y byddai angen trefniadau caffael. Gallwch weld y canllawiau hyn yma, [https://www.nao.org.uk/successful-commissioning/sourcing-providers](https://www.nao.org.uk/successful-commissioning/sourcing-providers).

7.1.5 Mae trefniadau comisiynu a chaffael da yn allweddol i ddarparu gwasanaethau o safon sy'n diwallu anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a sicrhau'r gwerth gorau am arian cyhoeddus. Bydd angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ynghylch comisiynu, ar ôl ystyried amrywiaeth o amcanion a ddisgrifir mewn strategaethau lleol a rhanbarthol ar ddigartrefedd, trechu tlodi, gofal cymdeithasol, VAWDASV neu ddiogelwch cymunedol a Gwaith Teg.

7.1.6 Dylai awdurdodau lleol, fel rhan o'u dull caffael, ystyried arloesedd a ffyrdd newydd o ddarparu cymorth er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau a diwallu anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yn well. Er enghraifft, cymorth lleol, gwasanaethau cymorth ar gais, cyfuno adnoddau rhwng cymorth sefydlog a chymorth fel y bo'r angen, defnyddio fframweithiau, datblygu gwasanaethau a chonsortia rhanbarthol.

7.1.7 Gall dau neu fwy o awdurdodau lleol (o fewn eu hardal ranbarthol neu'r tu hwnt iddi) ddewis cydweithio er mwyn cyd-gomisiynu gwasanaethau ar yr amod bod ganddynt flaenoriaeth gyffredin ac y bydd cyfuno adnoddau yn sicrhau gwerth gwell am arian ac yn diwallu anghenion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai yn well.

7.1.9 Dylai contractau gynnwys trefniadau ariannu eglur a thryloyw, gan gynnwys dealltwriaeth a rennir o gyfraniadau arian o renti, taliadau lles, rhaglenni gofal cymdeithasol ac iechyd yn ogystal â rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cymru fel y rheini sy'n rhan o'r Grant Plant a Chymunedau.

7.1.10 Mae'n hollbwysig bod gwasanaethau a modelau gwasanaeth yn datblygu er mwyn adlewyrchu agenda ddeddfwriaethol a pholisi Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a restrir yn 3.1 yn tynnu sylw at rôl atal wrth ddiwallu anghenion pobl mewn amgylchedd arian cyhoeddus cyfyngedig. Rhaid i drefniadau comisiynu fod yn hyblyg, a rhaid iddynt ganolbwyntio ar sicrhau'r effaith orau i bobl sy'n cael gwasanaethau ac agenda atal hirdymor.

7.1.11 Mae darparu gwasanaethau cymorth yn newis iaith pobl yn elfen hanfodol i bobl o ran diwallu eu hanghenion gofal a chymorth, sicrhau hawliau a hawlogaethau a gallu defnyddio eu hiaith eu hunain i gyfathrebu a chymryd rhan yn eu gofal fel partneriaid cyfartal. Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ddyletswyddau a rhwymedigaethau sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth, codau ymarfer a chanllawiau statudol a gyhoeddir o safbwynt yr iaith Gymraeg mewn unrhyw ymarfer caffael.

7.1.12 Mae'n hollbwysig bod awdurdodau lleol yn cadw rhestr o wasanaethau y gellir eu comisiynu neu eu caffael ar fyr rybudd os daw cyllid ar gael drwy lithrant neu am resymau eraill. Mae'n bosibl mai gwasanaethau newydd fydd y rhain, y mae angen iddynt gaffael gwasanaethau newydd neu ehangu eu gwasanaethau presennol. Efallai na fydd gan y cynlluniau hyn ffynhonnell ariannu sefydledig ac efallai na fyddant yn gwbl aeddfed, ond byddant ar gael i alw arnynt os daw cyllid ar gael ar fyr rybudd.

## 7.2 Y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer caffael

7.2.1 Caiff y broses o gaffael gwasanaethau gofal cymdeithasol a chymorth sy'n gysylltiedig â thai ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth sydd wedi'i deddfu yn y DU. Mae canllawiau Caffael ar gyfer y sector cyhoeddus ar gael drwy dudalen we Llywodraeth Cymru. Ni fwriedir i'r Canllawiau hyn gael eu defnyddio yn lle cyngor cyfreithiol nac i ddarparu esboniad cynhwysfawr o ddeddfwriaeth berthnasol, a dylai awdurdodau lleol geisio cyngor pellach fel y bo'n briodol.

7.2.2 Mae'r rheolau sy'n llywodraethu caffael cyhoeddus wedi newid gyda chyflwyno Deddf Caffael 2023, a ddaeth i rym ar 24 Chwefror 2025. Mae Deddf Caffael 2023 yn llywodraethu caffael ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a'i nod yw creu proses gaffael symlach, mwy hyblyg a mwy tryloyw. Dylid ei darllen ochr yn ochr â Datganiad Polisi Caffael Cymru sy'n nodi blaenoriaethau caffael strategol Sector Cyhoeddus Cymru, a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael (Cymru) 2023 (sydd i ddod i rym yn gynnar yn 2026), sy'n gosod dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol newydd ar gyrff cyhoeddus penodol yng Nghymru i hyrwyddo gwaith teg a chreu dyletswydd ar gyfer caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol.

7.2.3 Bydd gan awdurdodau lleol hefyd eu Rheolau Sefydlog Ariannol a Chontractau eu hunain y dylent gyfeirio atynt yn y lle cyntaf, a dylai comisiynwyr ofyn am gyngor gan eu hadrannau caffael a chyfreithiol eu hunain. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod eu Rheolau Sefydlog Ariannol a Chontractau yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion penodol comisiynu a chaffael gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai o'r ansawdd a'r ystod sydd eu hangen.

Gwasanaethau Iechyd

7.2.4. Bydd Deddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 newydd a'r Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) 2025 cysylltiedig, yn cyflwyno cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer dod o hyd i wasanaethau iechyd a ddarperir ar ran y GIG yng Nghymru. Bydd y gyfundrefn, a elwir yn Gyfundrefn Dethol Darparwyr Cymru (neu PSR Cymru), yn gymwys i awdurdodau perthnasol yng Nghymru (GIG Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru) wrth iddynt gaffael gwasanaethau iechyd. Er bod hyn yn ymwneud yn bennaf â gwasanaethau iechyd, dylid rhoi sylw dyledus wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol neu unrhyw wasanaeth iechyd perthnasol arall. Dylai awdurdodau lleol geisio eu cyngor

cyfreithiol/caffael eu hunain wrth benderfynu pa gyfundrefn y dylid ei defnyddio. Mae canllawiau a hyfforddiant statudol wedi'u datblygu i gynorthwyo awdurdodau lleol.

Gwasanaethau gofal cymdeithasol

7.2.5 Dylid rhoi sylw dyledus hefyd i'r *Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru: Cod ymarfer*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014. Er bod cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn wahanol i ofal a chymorth o dan y Ddeddf, mae cysylltiadau clir o ran llesiant, ymyrraeth gynnar a chymorth ataliol a gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig wrth gomisiynu neu ariannu cymorth sy'n gysylltiedig â thai lle gellir darparu gofal a chymorth hefyd (ee. lleoliadau byw â chymorth).

Hyblygrwydd

7.2.6 Mae Deddf Caffael 2023 ("y Ddeddf") yn parhau i ddarparu hyblygrwydd ar gyfer caffael gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

- O dan y Ddeddf, dylai contractau cyhoeddus bellach gael eu dyfarnu ar sail y Tendr Mwyaf Manteisiol (MAT) yn hytrach na'r Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd, sy'n annog awdurdodau contractio i ystyried ystod eang o feini prawf dyfarnu, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, ac ystyriaethau buddion economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach, wrth asesu gwerth am arian fel rhan o'r asesiad ansawdd.
- Mae'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol newydd yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau contractio ddylunio prosesau caffael aml-gam pwrpasol sy'n gwneud y mwyaf o ymgysylltu cynnar â chyflenwyr, deialog agored, a thrafodaethau wedi'u targedu, gan sicrhau bod y gwasanaethau mwyaf arloesol ac o ansawdd uchel yn cael eu sicrhau.
- Mae'r Ddeddf yn gosod llai o rwymedigaethau ar awdurdodau contractio mewn perthynas â chontractau sydd o dan y trothwy, er bod rhai eithriadau. Mae hyn yn golygu, wrth gaffael contractau sydd o dan y trothwy, bod gan awdurdodau contractio fwy o hyblygrwydd wrth ddylunio a rhedeg y caffael, a dyfarnu a rheoli'r contract. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y canllawiau sydd ar gael ar gontractau sydd o dan y trothwy i ddeall y gofynion a'r gwahaniaethau ar gyfer Cymru.

7.2.7 Gall meini prawf dyfarnu (Adran 23 o'r Ddeddf) gynnwys elfennau hanfodol i gefnogi darparu gwasanaeth (nid pris yn unig), cyn belled â bod ffactorau o'r fath yn ymwneud â phwnc y contract. Gellir cynllunio'r meini prawf er mwyn helpu awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau yn ôl anghenion lleol a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau, sy'n hollbwysig.  Fodd bynnag, wrth osod meini prawf dyfarnu, rhaid i awdurdod contractio fod yn fodlon:

- eu bod yn ymwneud â phwnc y contract
- eu bod yn ddigon clir, mesuradwy a phenodol,
- nad ydynt yn thorri'r rheolau ar fanylebau technegol sydd yn adran 56 o'r Ddeddf, a

- eu bod yn ffordd gymesur o asesu tendrau, ar ôl rhoi sylw i natur, cymhlethdod a chost y contract.

Contractau cyffyrddiad ysgafn

7.2.8 Contractau cyffyrddiad ysgafn yw contractau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau addysg penodol a gwasanaethau cyhoeddus penodol eraill ac maent yn ddarostyngedig i reolau caffael mwy hyblyg. Os yn defnyddio'r gyfundrefn contractau cyffyrddiad ysgafn, mae Adran 23(6) (meini prawf dyfarnu) yn caniatáu ystyried ffactorau ychwanegol yn y meini prawf dyfarnu, megis amrywiol anghenion gwahanol dderbynwyr gwasanaeth; neu i adlewyrchu y gall pa mor agos at ei gilydd yw'r cyflenwr a'r defnyddiwr gwasanaeth fod yn bwysig ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn effeithiol ac effeithlon. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y *canllawiau ar gontractau cyffyrddiad ysgafn* i gael rhagor o wybodaeth am y darpariaethau penodol sy'n berthnasol wrth gaffael gwasanaethau o'r fath o dan y Ddeddf Caffael.

7.2.9 Mae swm y trothwyon ar gyfer y gyfundrefn cyffyrddiad ysgafn wedi'i nodi yn atodlen 1 o Ddeddf Caffael 2023 ac mae'n £663,540 (gan gynnwys TAW) ar gyfer pob contract cyffyrddiad ysgafn arall nad yw'n gontract cyfleustodau neu'n gontract consesiwn. Sylwch fod y trothwyon yn Atodlen 1 Deddf Caffael 2023 wedi'u diweddaru a bod y trothwyon diweddaraf i'w gweld yn y *canllawiau trothwyon* ar brif wefan canllawiau'r Ddeddf Caffael.

7.2.10 Mae Atodlen 1 i 'Reoliadau Caffael (Cymru) 2024' yn nodi pa gontractau sy'n wasanaethau cyffyrddiad ysgafn drwy gyfeirio at godau'r Eirfa Gaffael Gyffredin (CPV), a gellir eu defnyddio i nodi a yw'r contract y mae'r awdurdod lleol yn dymuno ei gaffael yn gontract gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn, a hefyd a yw'n bosibl neilltuo'r contract (cyfeiriwch at y canllawiau ar *gontractau cyffyrddiad ysgafn* a hefyd y canllawiau ar '*neilltuo contractau ar gyfer darparwyr cyflogaeth â chymorth*' am ragor o wybodaeth).

Contractau o dan y trothwy

7.2.11 Mae Rhan 6 o'r Ddeddf yn nodi'r rheolau sy'n berthnasol wrth gaffael contractau o dan y trothwy a dylai comisiynwyr hefyd barhau i gymhwyso egwyddorion Deddf Caffael 2023; gan ymgymryd â gweithgarwch caffael teg, agored a thryloyw. Dylai comisiynwyr hefyd ymgyfarwyddo â rheolau sefydlog ariannol a chontractau mewnol sefydliadau, a pholisïau a gweithdrefnau caffael lleol. Mae ymgymryd â chaffael o dan y trothwy yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio wrth ddylunio a rhedeg y caffael, a dyfarnu a rheoli'r contract sy'n deillio o'r trothwy

7.2.12 Mae'r trothwy ar gyfer contractau sydd o dan y trothwy sy'n berthnasol i awdurdodau Cymreig datganoledig wedi'i ddiwygio yn unol â rheoliadau Cymru (Rheoliad 47 o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024). Y trothwyon ar gyfer awdurdodau Cymreig datganoledig sy'n awdurdodau llywodraeth ganolog a phob awdurdod contractio arall yw £30,000 gan gynnwys TAW. Fodd bynnag, os yw awdurdod Cymreig datganoledig yn caffael contract o dan y trothwy o

dan drefniant caffael neilltuedig (megis o dan Fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron), yna dylid adolygu gwerthoedd a chanllawiau o dan y trothwy Llywodraeth y DU (ar gael ar dudalen we Canllawiau Llywodraeth y DU).

### 7.3 Dull comisiynu darbodus ac ataliol

7.3.1 Dylai'r broses o gomisiynu gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ganolbwyntio ar atal, ond dylai hefyd fod yn gyson â'r egwyddorion sylfaenol a ddisgrifir fel rhan o ddull gweithredu Gofal Iechyd Darbodus.

- Sicrhau llesiant a thai diogel gyda'r cyhoedd, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai a gweithwyr proffesiynol fel partneriaid cydradd drwy gyd-gynhyrchu.
- Rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n wynebu risg uniongyrchol o fynd yn ddigartref er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol a chymesur o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael.
- Sicrhau bod gwasanaethau'n darparu cymorth cyn gynted â phosibl cyn i bethau droi’n argyfwng, gan gydnabod effaith colli cartref ar fywyd rhywun.
- Datblygu ac ailfodelu gwasanaethau ar sail tystiolaeth dda o arfer gorau mewn modd cyson.

7.3.2 Er mwyn cyflawni hyn, dylid ystyried sut y caiff gwasanaethau eu modelu a'u darparu, a nodi sut y gall gwasanaethau ddatblygu ac addasu i'r amgylchedd sy'n newid.

### 7.4 Gwerth am Arian

7.4.1 Mae angen sicrhau bod anghenion pobl y mae angen gwasanaethau arnynt wrth wraidd y broses o'u darparu, a'u bod yn gallu cyflawni eu canlyniadau. Dylid canolbwyntio ar yr angen i ddarparu gwasanaethau i gynifer o bobl anghenus â phosibl er mwyn sicrhau bod y Rhaglen yn cyflawni'r budd mwyaf, a hynny ar sail dealltwriaeth drylwyr o anghenion lleol a fydd yn galluogi dull gweithredu strategol sy'n cydbwyso ehangder y ddarpariaeth â'r gwaith o ddiwallu anghenion y rheini sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

7.4.2 Mae hefyd yn hollbwysig cydnabod a gwerthfawrogi'r staff sy’n darparu gwasanaethau o fewn y Rhaglen, yn aml i bobl sy'n wynebu argyfwng ac sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth. Dylai comisiynwyr a darparwyr sicrhau cymorth, datblygiad a thelerau ac amodau da i'r rheini sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r ffordd y caiff staff cymorth eu gwerthfawrogi yn effeithio'n anochel ar ansawdd y cymorth a gynigir.

7.4.3 Mae angen ceisio sicrhau atebion cyllid ar gyfer gwasanaethau sy'n sicrhau y caiff gwasanaethau eu targedu at ddiwallu anghenion pobl sy'n wynebu risg o fynd yn ddigartref. Gall hyn gynnwys cysoni neu integreiddio sectorau, ffrydiau ariannu neu bortffolios, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) cymorth sy'n gysylltiedig â thai, Tai, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, VAWDASV, Plant a Chymunedau a Threchu Tlodi (lle y bo'n briodol), gyda'r nod o sicrhau y caiff y

gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol eu darparu. Gall hyn gynnwys contractio a monitro gwasanaethau ar y cyd.

7.4.4 Dylai awdurdodau lleol gydnabod y gall fod rhesymau dilys i egluro pam y mae'r costau'n fwy na'r meincnodau mewn nifer bach o wasanaethau arbenigol. Un o elfennau allweddol y broses i'w dilyn yw y dylai pob rhanddeiliad allu bod yn rhan o drafodaeth agored am y materion hyn, yng nghyd-destun trafodaethau ar werth am arian, lle y cydnabyddir mai'r comisiynwyr sydd â'r penderfyniad olaf.

7.4.5 Mae'r egwyddorion allweddol i'w hystyried wedi'u hamlinellu o dan 7.3, *'Dull Comisiynu Darbodus ac Ataliol'.* Mae'r materion ehangach i'w hystyried wedi'u hamlinellu isod.

- Sicrhau bod pobl y mae angen gwasanaethau arnynt wrth wraidd y broses o'u darparu, ac y canolbwyntir ar yr hyn sydd o werth iddyn nhw.
- Y ffaith bod gwerth am arian yn gweithio y ddwy ffordd – mae angen i ddarparwyr allu talu costau gwirioneddol y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Rhaid i gomisiynwyr awdurdodau lleol gydnabod pwysigrwydd adennill costau'n llawn, a dylai darparwyr fod yn dryloyw o ran y costau hyn ac unrhyw incwm arall y maent yn ei gael ar gyfer y cynllun.
- Rhaid i wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai ategu gwasanaethau cyngor ar dai yr awdurdod lleol. Dylai pobl gael gafael ar wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai drwy borth atgyfeirio neu systemau eraill sy'n amlwg yn atebol i'r awdurdod lleol.
- Dylai achosion o droi allan o leoliadau â chymorth gyd-fynd yn sylfaenol â dibenion y grant a'n strategaeth atal digartrefedd. Er y gallai fod amgylchiadau lle mae angen cymryd camau llym er mwyn sicrhau diogelwch y preswylwyr eraill a staff, dylai'r camau hyn gael eu hystyried fel y dewis olaf a'u defnyddio lle nad oes dewis arall. Bydd angen i'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod lleoliadau Cymorth Tai yn cael eu monitro a'u bod yn atebol am unrhyw gamau, er mwyn gwneud yn siŵr nad yw unrhyw achosion o wahardd neu droi allan yn arwain at ddigartrefedd..
- Annog arloesedd er mwyn datblygu modelau mwy effeithiol ac effeithlon.
- Lle y bo'n bosibl, datblygu gwasanaethau a gaiff eu cydgysylltu mewn ffordd sy'n lleihau achosion o ddyblygu ac yn cyflawni amcanion polisi a rennir.
- Dylai gwasanaethau fod yn atebol ond mae angen i randdeiliaid sicrhau bod systemau adrodd yn gymesur, gan ystyried gwerth contractau, lefel y risg a ragwelir a faint o gymorth a roddir.
- Dylid ystyried egwyddorion Datganiad Polisi Caffael Cymru gan ddylanwadu'n briodol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu caffael er mwyn sicrhau budd cyffredinol i'r gymuned.
- Mae gwerthfawrogi'r gweithlu sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau ansawdd y gwasanaethau a ddarperir drwy fodd ariannol ac anariannol. (Dylid ystyried adroddiad Gwaith Teg Cymru 2019, y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi (2017) a'r Cymalau gwerth cymdeithasol/buddion cymunedol drwy gaffael cyhoeddus (2020)).

## 7.5 Tendro ac ail-dendro Gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

Tendro

7.5.1 Dylai gwasanaethau newydd fod yn ddarostyngedig i reoliadau ac arferion caffael arferol.

7.5.2 Dylid ystyried y mathau mwyaf priodol o gontractau, grantiau neu ddarpariaeth fewnol i'w defnyddio yn ôl y gwasanaethau sydd eu hangen.

7.5.3 Dylid hefyd roi ystyriaeth ofalus i hyd y contract wrth gaffael gwasanaethau, gan gydnabod yr angen am hyblygrwydd o ran hyd contractau er mwyn darparu gwasanaethau cynaliadwy, gan gydbwyso gwerth am arian ar yr un pryd. Dylid hefyd roi ystyriaeth i bwysigrwydd hydoedd contractau gan greu amgylchedd sefydlog i recriwtio a chadw staff a rhoi sicrwydd a chysondeb i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

7.5.4 Dylai awdurdodau lleol sicrhau y rhoddir digon o rybudd o wasanaethau newydd er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cael digon o amser i feithrin partneriaethau, cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a sicrhau y gallant ddatblygu cynnig o ansawdd uchel. Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau eu bod yn cyfathrebu â darparwyr yn ystod ac ar ôl y broses hon mewn modd amserol, yn unol ag amserlenni a therfynau amser a gyhoeddwyd.

Aildendro

7.5.5 Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y dylid cynnal ymarfer aildendro fel arfer:

a) pan fydd contract gwasanaeth ar fin dod i ben;
b) pan fydd adolygiad strategol o wasanaeth wedi nodi nad yw gwasanaeth yn strategol berthnasol mwyach ac nad yw'n gallu ad-drefnu nac ailfodelu ei wasanaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau newydd;
c) pan fydd gwaith monitro contractau fel mater o drefn wedi nodi materion o ran perfformiad, h.y. pan nad yw'r darparwr yn gweithredu'n effeithiol mwyach ac mae'n darparu gwasanaethau o ansawdd isel neu pan nad yw'r darparwr wedi cydymffurfio â thelerau ac amodau'r contract.

7.5.6 Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod yr amgylchiadau hyn wedi'u nodi'n glir yn nhelerau ac amodau'r contract â'r darparwr.

7.5.7 Fel rhan o'r trefniadau tendro hyn, bydd angen penderfynu pa broses i'w defnyddio i drosglwyddo o hen ddarparwr i un newydd. Lle bynnag y bydd newid o ran darparwr, dylid gofalu bod trefniadau ar waith i sicrhau bod gan y darparwyr a'r awdurdod lleol gynllun cadarn ar gyfer trosglwyddo'r gwasanaeth. Dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r amser a gymerir i sefydlu gwasanaeth newydd a throsglwyddo staff, lle y bo'n briodol.

7.5.8 Dylai'r dull caffael ystyried yr angen i sicrhau sefydlogrwydd yn y sector, enw da darparwyr o ran darparu gwasanaethau o ansawdd, ac i ba raddau y mae'r cydberthnasau sefydledig rhwng darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn helpu i gyflawni canlyniadau. Cyn penderfynu aildendro contract, dylai awdurdodau lleol ystyried y materion allweddol canlynol:

- I ba raddau y gallai'r broses aildendro amharu ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Lle y caiff gwasanaethau cymhleth eu darparu, mae'n rhesymol i hyd y contract adlewyrchu hyn.

- Canlyniad ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ac unrhyw oblygiadau i drefniadau cysylltiedig, e.e. cytundebau tenantiaeth, yn sgil aildendro.

- Cost a goblygiadau ehangach o’r rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE) o ran y gweithlu.

- Hyfywedd ariannol y darparwr. Dylai awdurdod lleol sicrhau ei fod yn cydgysylltu ag awdurdodau lleol eraill y mae'r cyfryw ddarparwyr yn gweithredu yn eu hardaloedd, fel y gallant nodi unrhyw faterion sy'n codi.

- Goblygiadau posibl o ran costau. Dylai awdurdodau lleol gydbwyso hyblygrwydd proses aildendro arferol â'r costau a'r beichiau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r broses honno a'r amser sydd ei angen i arloesi a gwella effeithlonrwydd wrth ddatblygu cydberthynas effeithiol â darparwr.

- Dylid rhoi sylw dyledus i barhad gwasanaeth, darpariaeth a brofwyd ac ymrwymiad hirdymor darparwr. Dylid ystyried hyn wrth werthuso hyfywedd ariannol y broses o ailgaffael gwasanaeth.

- Maint a nifer y contractau o fewn ymarfer caffael. Dylai awdurdod lleol ystyried sut y gallai hyn effeithio ar nifer y darparwyr sy’n gweithredu yn yr ardal ynghyd â’r amrywiaeth a geir.

## 7.6 Monitro Contractau ac Adolygiadau Strategol

7.6.1 Dylai gwasanaethau sy'n bodoli eisoes fod yn destun adolygiad strategol bob pedair blynedd. Mae'n bwysig sicrhau y caiff dull tryloyw a chyson o asesu perthnasedd strategol ei ddilyn.

7.6.2 Dylai adolygiad strategol ystyried y canlynol:

a) Rhaid i'r gwasanaeth fod yn gwneud y canlynol:
- cyfrannu at amcanion strategol lleol a chenedlaethol
- bodloni gofynion a chyflawni amcanion manyleb y gwasanaeth
- cyflawni canlyniadau sy'n berthnasol i'r Grant Cymorth Tai.

b) Rhaid i anghenion cymorth y grŵp cleientiaid fod yn gymwys ar gyfer cyllid y Grant Cymorth Tai.

c) Rhaid i'r gwasanaeth ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai a dangos bod y cymorth a ddarperir yn galluogi ac yn canolbwyntio ar ddatblygu annibyniaeth person a'i wydnwch ar gyfer y dyfodol, h.y. 'gwneud gyda' ac nid 'gwneud dros'.

d) Tystiolaeth o'r galw am y gwasanaeth.

e) Adborth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.

7.6.3 Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau eu bod yn monitro pob contract sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Tai, o leiaf bob blwyddyn, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Grant, a pherfformiad yn erbyn unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol. gan ddefnyddio dull gweithredu ar sail risg.

7.6.4. Cydnabyddir y gall awdurdodau lleol hefyd ymgymryd â'u gwaith monitro eu hunain yn ystod y flwyddyn a chasglu data ychwanegol i fodloni gofynion monitro contractau. Dylai hyn fod yn gymesur ac yn rhesymol, gan ystyried gwerth contract, math o wasanaeth, a'r baich gweinyddol a roddir ar y darparwr wrth fodloni'r gofynion hyn.

7.6.5 Dylai awdurdodau lleol ystyried cynnwys darpariaethau yn y contract sy'n galluogi darparwyr i ailfodelu eu gwasanaethau yn ystod y contract, os bydd newid mewn angen lleol neu os daw tystiolaeth newydd yn seiliedig ar ddulliau gweithredu i'r amlwg. Dylid gwneud hyn mewn partneriaeth ac mewn cytundeb â'r darparwr a'r awdurdod lleol bob amser.

## 7.7 Datgomisiynu gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

7.7.1 Bydd angen i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau anodd wrth ad-drefnu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod ganddynt y cydbwysedd cywir i ganolbwyntio ar atal digartrefedd a mynd i'r afael â'r amgylchedd ariannu sy'n newid. Bydd angen ystyried a chytuno ar flaenoriaethau strategol yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd er mwyn darparu rhaglen Grant Cymorth Tai effeithiol. Bydd angen rhoi strategaethau rheoli risg ar waith er mwyn rheoli'r posibilrwydd o ostyngiadau mewn cyllid ynghyd ag Asesiadau cynhwysfawr o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn rholi'r broses a lleihau'r risg i'r rhai sy'n cael gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.

7.7.2 Mae angen i awdurdodau lleol wneud toriadau mewn modd strategol gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: Tai, Prawf, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, VAWDASV a darparwyr gwasanaethau.

Y broses ddatgomisiynu

7.7.3 Rhaid i wasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai gael eu datgomisiynu drwy broses glir a thryloyw a gaiff ei rheoli'n dda er mwyn lleihau'r risg ac sy'n ystyried barn rhanddeiliaid.

7.7.4 Dylai unrhyw gynnig i ddatgomisiynu gynnwys tystiolaeth glir. Dim ond yn dilyn asesiad o berthnasedd strategol y dylid cymeradwyo cynnig i ddatgomisiynu. Rhaid i'r broses benderfynu gynnwys asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb er mwyn rheoli a lleihau'r risg i'r rhai sy'n cael y gwasanaethau. Lle y bo'n briodol, dylid datblygu strategaeth ymadael.

7.7.5 Dylai'r awdurdod lleol ystyried tystiolaeth gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai, yn ogystal â'u barn.

7.7.6 Mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle bydd darparwr yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaeth neu lle na fydd yn gallu parhau i'w ddarparu. Yng nghyd-destun y rheolau caffael, mewn amgylchiadau o'r fath dylai'r awdurdod lleol sicrhau parhad y gwasanaeth, gan fodloni holl ofynion y canllawiau caffael ar yr un pryd.

7.7.7 Mater i'r awdurdod lleol yw dod i benderfyniad terfynol ynghylch datgomisiynu gwasanaeth a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai, gan gymhwyso ei brosesau cymeradwyo a sicrwydd mewnol ei hun.

7.7.8 Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i ddatgomisiynu gwasanaeth, bydd yr hysbysiad ffurfiol yn dilyn y gofynion cytundebol. Pan fydd darparwr cymorth wedi cyflwyno hysbysiad terfynu contract i'r awdurdod lleol, bydd hwn hefyd yn dilyn y gofynion cytundebol.

7.7.9 Pan fydd y darparwr cymorth wedi cael hysbysiad terfynu contract, bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r darparwr er mwyn rhoi gwybod i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai am y penderfyniad. Rhaid i'r broses hon ystyried natur fregus ac anghenion cymorth pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai, a fydd yn llywio cynllun rheoli risg.

7.7.10 Dylai'r awdurdod lleol sicrhau y caiff rhanddeiliaid perthnasol eu cynnwys cyn gynted ag y caiff penderfyniadau strategol eu gwneud, ac y cyfathrebir â nhw'n rheolaidd ac mewn modd priodol. Dylai’r awdurdod lleol roi rhybudd digonol er mwyn lleihau’r effaith negyddol ar y darparwr a phobl sy’n defnyddio gwasanaethau.

## 7.8 Codi tâl am wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai

7.8.1 Mater i awdurdodau lleol yw penderfynu codi tâl am wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'r canllawiau isod yn amlinellu'r ddeddfwriaeth y gallai awdurdodau lleol ei defnyddio os byddant yn dewis codi tâl am wasanaethau. Dylai awdurdodau lleol ystyried costau casglu yn erbyn yr incwm a gynhyrchir wrth godi tâl am wasanaethau. Rhaid i awdurdodau lleol

geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain i sicrhau eu bod yn gallu codi tâl am wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

7.8.2 Deddfwriaeth

Deddf Tai 1985 – Adran 11A (Darparu Gwasanaethau Lles)

I grynhoi, mewn perthynas â thai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, mae Adran 11A o Ddeddf Tai 1985 yn pennu y gall awdurdod tai lleol ddarparu gwasanaethau lles i hybu lles yr unigolion y mae'r awdurdod yn darparu'r llety iddynt. Gall yr awdurdod lleol godi tâl rhesymol am y gwasanaethau lles hyn. Nid yw gwasanaethau lles yn cynnwys atgyweirio, cynnal a chadw, goruchwylio na rheoli tai nac eiddo arall.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 - Adran 2 (Hybu lles) a 3 (Terfynau ar bŵer i hybu lles) ac Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Pŵer i godi tâl am wasanaethau dewisol)

Mae Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn pennu y dylid rhoi pŵer i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud unrhyw beth sy'n debygol, yn ei farn ef, o gyflawni unrhyw un o'r gwrthrychau canlynol – hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr ardal. Mae Adran 3 yn pennu terfynau ar bŵer awdurdod lleol i hybu lles. Cyhoeddwyd canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru ar arfer y pwerau hyn.

Mae Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn pennu y gall awdurdod perthnasol godi tâl ar berson am ddarparu gwasanaeth i'r person hwnnw, os yw'r awdurdod wedi'i awdurdodi, ond nad yw'n destun gofyniad, i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw o dan ddeddfiad, a bod y person wedi cytuno i'w gael.

# Pennod 8: Dyraniadau cyllidebol, rheolaeth ariannol, monitro ac adrodd ar y Grant Cymorth Tai

## 8.1 Dyraniadau cyllidebol

8.1.1 Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cytuno ar y gyllideb ddrafft erbyn diwedd mis Rhagfyr y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys swm dangosol y Grant Cymorth Tai.

8.1.2 Bydd llythyrau sy'n cyhoeddi dyraniadau dangosol y Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn cael eu dosbarthu i'r awdurdodau lleol erbyn diwedd mis Rhagfyr, neu unwaith cytunir ar y gyllideb ddrafft.

8.1.3 Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyllideb derfynol gyfan erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn. Bydd hyn yn cynnwys cyllid y Grant Cymorth Tai.

8.1.4 Bydd awdurdodau lleol yn cyflwyno eu cais am gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai (gweler 4.2.12), gan gynnwys eu cynllun gwariant, erbyn diwedd mis Ionawr bob blwyddyn.

8.1.5 Os caiff eu cais ei gymeradwyo, caiff awdurdodau lleol lythyr cynnig Grant Cymorth Tai yn ystod mis Mawrth bob blwyddyn yn barod i gyflwyno'r grant ym mis Ebrill. Bydd y cynnig ar ffurf llythyr Dyfarniad Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol sy'n dechrau ym mis Ebrill.

## 8.2 Cynllun gwariant, monitro ac adrodd ar y Grant Cymorth Tai

Cais am gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai

8.2.1 Fel y nodir ym Mhennod 4, mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer y Grant Cymorth Tai yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni ei strategaeth ar gyfer y Grant Cymorth Tai a cyflawni blaenoriaethau'r Grant Cymorth Tai yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys ei flaenoriaethau strategol a cyflawni, y cynllun comisiynu, y cynllun gwariant blynyddol a thystiolaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr, ac mae'n nodi mewn atodiad ar wahân sut y bydd yr awdurdod yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran digartrefedd.

8.2.2 Mae'r Cynllun Cyflawni'n sail i gais yr awdurdod am gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai, y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ei gymeradwyo. Cymeradwyir y grant ar sail cynllun credadwy a thystiolaeth glir o waith i gynnwys ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau.

8.2.3 Dylai'r cais blynyddol gynnwys yr elfennau canlynol o'r Cynllun Cyflawni:
- Crynodeb o flaenoriaethau lleol o ran y Grant Cymorth Tai
- Cynllun Gwariant Lleol blynyddol

- Naratif ar unrhyw amrywiadau uwchlaw 10% o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

8.2.4 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio'r templed a ddarperir gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn, a rhaid iddynt gyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr. Dylai'r awdurdod lleol gymhwyso ei systemau cymeradwyo ei hun cyn cyflwyno'r cais i Lywodraeth Cymru.

8.2.5 Bydd awdurdodau lleol yn gallu arfer y rheolaeth angenrheidiol wrth reoli rhaglenni drwy ddewis gwasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai sy'n cydbwyso blaenoriaethau, anghenion a'r gallu i gyflawni ar lefel ranbarthol a lleol.

Adrodd ar y Grant Cymorth Tai

8.2.6 Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu diweddariadau chwe misol ar wariant/tanwariant a chynnydd o ran y cynllun gwariant, ynghyd ag adroddiad ychwanegol drwy eithriad ar unrhyw danwariant/gorwariant pellach yn chwarter 3.

8.2.7 Bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno diweddariad naratif ar gynnydd mewn perthynas â'r gwaith o gyflawni eu Cynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai a’r Cynllun Gwariant, a hynny bob chwe mis ac ar ddiwedd y flwyddyn.

8.2.8 Bydd angen i awdurdodau lleol gyflwyno eu datganiad gwariant alldro terfynol i Lywodraeth Cymru erbyn canol mis Ebrill. Bydd monitro gwariant drwy gydol y flwyddyn yn rhan annatod o rôl rheoli rhaglen yr awdurdod lleol.

8.2.9 Ceir enghraifft o broffil taliadau yn Atodiad C. Mae hyn yn nodi pan gaiff taliadau eu gwneud i awdurdodau lleol yn seiliedig ar dderbyn y ffurflenni gofynnol erbyn y dyddiadau a nodwyd. Pan gaiff ffurflenni eu cyflwyno yn hwyrach na’r dyddiadau a nodwyd, yna gall hyn olygu bod yr awdurdod yn cael ei dalu ar ddyddiad diweddarach.

8.2.10 Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn unol â thelerau ac amodau'r grant a'r Dystysgrif Archwilio Flynyddol. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y gwiriadau a'r rheolaethau angenrheidiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth Darparwr.

### 8.3 Taliadau rheoli

8.3.1 Dylai awdurdodau lleol ariannu costau rheoli craidd darparwr. Dylai taliadau rheoli fod yn rhesymol ac yn gyson â chynnal gwasanaethau cynaliadwy. Dylent hefyd fod yn seiliedig ar gostau gwirioneddol cyn belled ag y gellir eu cadarnhau a'u cyfrifo'n rhesymol. Fel rheol, ni ddylai taliadau rheoli fod yn fwy na 10% o werth y grant a ddyrennir i ddarparwr. Fodd bynnag, dylai'r cap fod yn seiliedig ar egwyddor 'cydymffurfio neu egluro'. Os bydd gwariant darparwr

yn uwch na'r cap bydd yn ofynnol iddo ddarparu dadansoddiadau llawn o'i wariant perthnasol ynghyd â gwybodaeth gysylltiedig i egluro pam y mae'r gwariant cyffredinol yn uwch na'r cap, ynghyd â'r camau y mae wedi'u cymryd i leihau gwariant. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw cytuno fesul achos lle mae costau yn fwy na 10% oherwydd rhesymau cyfreithlon a dylid ystyried cynaliadwyedd parhaus y gwasanaeth.

8.3.2 Yn eu cyllidebau a'u hadroddiadau ariannol, dylai pob darparwr ac awdurdod lleol wahaniaethu rhwng y canlynol:

- Costau darparu rheng flaen (costau cyflogau yw'r rhain yn bennaf ond gallant gynnwys costau eraill hefyd, yn dibynnu ar y prosiect).
- Gorbenion sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni ('costau rhedeg eraill' gan gynnwys eitemau fel argraffu, cludiant, teithio a chynhaliaeth, hyfforddi staff rheng flaen, ac ati).
- Gorbenion anuniongyrchol a chanolog (taliadau rheoli).

8.3.3 Mae taliadau rheoli fel arfer yn cwmpasu'r costau (neu gyfran o'r costau) sy'n gysylltiedig â gweithrediad/trefniadaeth ganolog y Darparwr sy'n angenrheidiol er mwyn darparu'r gwasanaeth (costau corfforaethol). Gall y rhain gynnwys cyfran deg o'r canlynol:

- Costau rheoli a llywodraethu canolog, gan gynnwys gorbenion uniongyrchol ac anuniongyrchol fel hyfforddiant a gwasanaethau cymorth.
- Gwasanaethau cymorth cefn swyddfa fel Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyfreithiol a Chyfathrebu.
- Yn dibynnu ar y darparwr a'r prosiect, elfennau fel caffael, cyfleusterau, costau prydlesu adeiladau, archwilio, TG, yswiriant, rheoli a sicrhau ansawdd, cyhoeddusrwydd a marchnata, datblygu polisi a materion cyhoeddus, iechyd a diogelwch a gweinyddu a chofnodion.

## 8.4 Rolau unigol ym maes dyrannu a rheoli'r Grant Cymorth Tai

### Rôl awdurdodau lleol

8.4.1 Awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am ddyrannu a rheoli'r Grant Cymorth Tai, a hynny drwy'r canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, datblygu strategaethau lleol cadarn i nodi anghenion a blaenoriaethau.
- Gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol partner rhanbarthol, drwy'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, i greu datganiad rhanbarthol sy'n nodi'r gwasanaethau a ddarperir yn rhanbarthol a'r cyfleoedd i wella gwasanaethau drwy gydweithio ar lefel ranbarthol.
- Sicrhau bod Strategaeth pedair blynedd ar waith ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai sy'n nodi cyfeiriad strategol ac amcanion yr awdurdod lleol

sy'n darparu gwasanaethau digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.

- Sicrhau bod Cynllun Cyflawni blynyddol ar waith ar gyfer y Grant Cymorth Tai sy'n nodi'r ffordd y caiff Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a'r cyllid grant eu cyflawni.
- Sicrhau bod Cynllun Comisiynu Lleol ar waith, fel rhan o Gynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai, sy'n rhoi trosolwg o'r argymhellion ar gyfer comisiynu, ailfodelu a datgomisiynu ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.
- Sicrhau bod ei gais am gyllid, gan gynnwys Cynllun Gwariant, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn.
- Cynnig gwasanaethau effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y person, i'w hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai sy'n helpu i greu annibyniaeth ac i fynd i'r afael ag anghenion a nodau strategol lleol a rhanbarthol;
- Sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd yn cael eu darparu, eu bod yn sicrhau gwerth am arian, y gellir adennill eu costau rhesymol yn llawn ar sail Cynllun Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, a'u bod yn cydymffurfio â chanllawiau a thelerau ac amodau'r grant.
- Rheoli'r broses o gomisiynu a chaffael gwasanaethau yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol, Rheolau Caffael Contractau Awdurdodau, ac ystyried adran Comisiynu a Chaffael y Canllawiau hyn ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill.
- Blaenoriaethu cynlluniau ar sail meini prawf sefydledig a thryloyw, gan gynnwys cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar bob penderfyniad ynghylch ariannu;
- Dewis darparwyr gwasanaethau ar gyfer cynlluniau ar sail meini prawf tryloyw a monitro costau darparu gwasanaethau.
- Rheoli alldroeon y Rhaglen.
- Cwblhau Tystysgrif Archwilio Llywodraeth Cymru yn unol â Thelerau ac Amodau'r Grant ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, y dylid ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Medi bob blwyddyn, gan ardystio bod y wybodaeth am wariant wedi'i dilysu'n briodol.
- Sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ymwneud â'r cynlluniau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai ar gael ar gyfer Llywodraeth Cymru os oes angen.
- Sicrhau y caiff data ar y fframwaith canlyniadau eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y fformat penodedig lle bo angen.
- Defnyddio data ar ganlyniadau lleol i lywio penderfyniadau am gomisiynu.
- Sicrhau bod gan ddarparwyr ymwadiadau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gleientiaid ar gael at ddibenion ymchwil a gwerthuso.
- Adolygu a monitro pob contract sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Tai o leiaf bob blwyddyn, er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r Grant Cymorth Tai, gan ddefnyddio dull gweithredu ar sail risg. Mae hyn yn cynnwys rheoli cyfnodau gwag.
- Cynnal adolygiad strategol o wasanaethau o leiaf bob pedair blynedd er mwyn profi perthnasedd y gwasanaethau a ph'un a ydynt yn dal i ddiwallu'r anghenion lleol neu ranbarthol a nodwyd yn Strategaeth y

Rhaglen Cymorth Tai. Pan fydd cyfnodau contract byrrach ar waith, dylid cynnal yr adolygiad strategol yn gynt.

- Dangos y broses o rannu arfer da a dysgu gan awdurdodau lleol eraill er mwyn llywio gwelliant parhaus wrth ddarparu'r grant.

**Rôl Llywodraeth Cymru**

8.4.2 Prif rôl Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwariant drwy'r Grant Cymorth Tai yn bodloni meini prawf a diben y grant fel y nodir yn y canllawiau hyn. Er bod sicrhau cydymffurfiaeth yn rhan bwysig o'r rôl hon, y bwriad yw cefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau gwell drwy gasglu deallusrwydd am yr hyn sy'n gweithio a rhannu gwybodaeth am ymarfer effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyflawni mwy drwy waith yn meithrin gallu strategol Awdurdodau na 'micro-reoli' penderfyniadau. Fel y cyfryw, rydym yn croesawu gwybodaeth gan bob rhanddeiliad am y ffordd y mae'r Grant Cymorth Tai yn gweithio, ond ni fydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd ar gyfer datrys anghydfodau lle mae dulliau priodol eisoes ar waith. Er enghraifft, cwynion neu weithdrefnau anghydfod cytundebol. Bydd Llywodraeth Cymru yn fodlon i faterion gael eu codi, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gyrff cynrychioliadol fel Cymorth, er mwyn meithrin y 'deallusrwydd' sydd ei angen i nodi meysydd i'w gwella. Dylid codi materion o'r fath gyda thîm polisi'r Grant Cymorth Tai.

8.4.3 Mae rôl Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

- Cefnogi gwelliant parhaus wrth ddarparu'r Grant Cymorth Tai drwy gyhoeddi canllawiau, hyrwyddo arfer da a chynnal gwerthusiad cyfaill beirniadol o'r broses o'i ddarparu.
- Pennu fframwaith strategol ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai.
- Ystyried a chymeradwyo cynlluniau/strategaethau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol fel y bo'n briodol.
- Darparu dyraniadau cyllideb ddangosol, yn unol â chafeatau priodol.
- Dyrannu adnoddau'r Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol gan ystyried cynlluniau gwariant lleol mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai. Ceidw Llywodraeth Cymru yr hawl i adolygu dyraniadau i awdurdodau lleol unigol.
- Gweinyddu'r broses o dalu'r grant i awdurdodau lleol.
- Monitro perfformiad awdurdodau lleol yn erbyn eu cais am gyllid. Bwriad Llywodraeth Cymru yw hwyluso trafodaeth adeiladol ynghylch gwella gwasanaethau, ac fel rhan o'r broses hon mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i ymweld ag awdurdodau lleol a gweld dogfennau perthnasol yn ymwneud â gweithredu'r Grant Cymorth Tai.
- Adolygu defnydd ad-hoc awdurdodau lleol a darparwyr o'r grant.
- Gwerthuso'r canlyniadau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai.
- Dwyn awdurdodau lleol i gyfrif mewn perthynas â chynnwys pobl â phrofiad uniongyrchol o dderbyn gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau mewn ffordd ystyrlon, yn unol â'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu a amlinellir ym Mhennod 4 a Phennod 6.

### Rôl y Darparwr

8.4.4 Bydd y Darparwr yn gwneud y canlynol:

- Datblygu a darparu gwasanaethau sy’n atal ac yn lleddfu digartrefedd, yn helpu pobl i gynnal eu tenantiaeth ac yn helpu i feithrin annibyniaeth.
- Lle y bo'n briodol, cyfeirio at wasanaethau eraill a chysylltu â nhw, e.e. cyfleoedd iechyd, addysg, cyflogaeth, gwirfoddoli a hyfforddi.
- Dangos cymhwysedd a chydymffurfiaeth ariannol â'r holl reoliadau a gofynion ariannol perthnasol.
- Sicrhau gwasanaethau o safon a gwerth am arian.
- Cydymffurfio â'r holl rwymedigaethau cytundebol sy'n ddyledus i'r corff comisiynu.
- Darparu gwybodaeth am gostau ac incwm ar gyfer y prosiect.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.
- Cymryd rhan ym mhroses ymgysylltu'r awdurdod lleol, gan nodi unrhyw fylchau mewn gwasanaethau ac adrodd yn ôl ar hynny.
- Cyfrannu at systemau cynllunio strategol yr awdurdod lleol.
- Hwyluso'r broses o gynnwys defnyddwyr gwasanaethau er mwyn llywio'r gwaith o wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a'r Rhaglen Cymorth Tai ehangach.

# Pennod 9: Dangos effaith y Grant Cymorth Tai

## 9.1 Fframwaith Canlyniadau y Grant Cymorth Tai

9.1.1. Gweithredwyd Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai newydd o fis Ebrill 2023. Cafodd y Fframwaith Canlyniadau newydd hwn ei gyd-ddatblygu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth gan awdurdodau lleol a darparwyr cymorth tai. Yna ymgynghorwyd ar y Fframwaith trwy weithgarwch ymgysylltu ar ddiwedd 2022. Felly mae'r Fframwaith Canlyniadau hwn yn disodli'r fframwaith canlyniadau Rhaglen Cefnogi Pobl flaenorol.

9.1.2 Mae Fframwaith Canlyniadau'r Grant Cymorth Tai newydd yn cael ei adrodd yn ei erbyn gyda data a gyflwynir i Lywodraeth Tachwedd ddwywaith y flwyddyn (ym mis Tachwedd a mis Mai). Mae canllawiau ac offeryn adrodd monitro wedi'u dosbarthu i awdurdodau lleol a darparwyr cymorth ac yn nodi'r gofynion adrodd a'r terfynau amser. Fodd bynnag, dylai darparwyr cymorth tai ddilyn proses adrodd canlyniadau'r awdurdod lleol perthnasol.

9.1.3 Bydd canlyniadau lefel uchel o'r Fframwaith Canlyniadau y Grant Cymorth Tai yn bwydo i mewn i'r Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd. Cafodd Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ei gyd-ddatblygu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Strategol yn ystod 2022, ac yn cynnwys cynrychiolaeth gan Awdurdodau Lleol, darparwyr gwasanaethau a Cymorth Cymru. Yn dilyn hyn, ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y Fframwaith Canlyniadau Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd newydd yn ystod 2023, a chyhoeddwyd fersiwn terfynol yn Ionawr 2024.

# Atodiad A: Fframwaith Cynllunio Grant Cymorth Tai Awdurdodau Lleol

**CAM 1 - 'Datganiad o Angen' (Asesiad o Anghenion)**
**(Bob 4 blynedd, gydag adolygiad llai manwl bob 2 flynedd)**
Dylai'r asesiad gwmpasu'r gofynion statudol ar gyfer adolygiad o ddigartrefedd yn ogystal â'r asesiad llawn ar gyfer y Grant Cymorth Tai

**CAM 2 – Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai (Bob 4 blynedd, ond caiff ei hadolygu bob 2 flynedd)**
Strategaeth unigol yw hon, a ddylai ymgorffori dyletswydd statudol yr awdurdod lleol i lunio strategaeth ar ddigartrefedd a'r gofynion cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Dylai gwmpasu'r ddyletswydd statudol ar ddigartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol anstatudol a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.

**CAM 3 – Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai (Adolygwyd a diweddarwyd Bob blwyddyn)**
Dylai nodi'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni blaenoriaethau'r Grant Cymorth Tai a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn drwy'r Grant Cymorth Tai, yn cynnwys bwriadau o ran gwariant a chomisiynu. Dylai hyn gynnwys:

- **Blaenoriaethau o ran cyflawni**
- **Cynllun Gwariant Lleol (gan gynnwys Naratif ar unrhyw amrywiadau uwchlaw 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol**
- Cynllun Comisiynu Lleol
- Asesu Anghenion
- Ymgysylltu â Rhanddeiliaid
- Asesiad o'r Effaith
- Atodiad D ar gyflawni dyletswyddau statudol ar ddigartrefedd

**CAM 4 – Cyflwyno Cais am Gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai (Bob blwyddyn)**

Dylid cyflwyno'r elfennau a amlygwyd mewn print trwm yng Nghynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai (yng ngham 3) i Lywodraeth Cymru er mwyn iddi lunio ei chais am gyllid (**nid oes angen dogfen ar wahân i'r Cynllun Cyflawni**)

# Atodiad B:  Y Grant Cymorth Tai – Rhestr o'r dogfennau gofynnol

| | Dogfen | Diben | Amlder | Cyflwyno |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai | Dylai Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai nodi cyfeiriad yr awdurdod lleol ar gyfer gwasanaethau cymorth tai.  Byddai hyn yn cynnwys y ddyletswydd statudol o ran digartrefedd a ariennir drwy'r setliad refeniw yn ogystal â gwasanaethau atal a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai.<br><br>Dylai'r Strategaeth gynnwys strategaeth statudol bresennol yr awdurdod lleol ar ddigartrefedd, y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei rhoi ar waith o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. | Bob pedair blynedd, ond ei hadolygu bob dwy flynedd<br><br>Y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai gyntaf i gael ei rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2022 | Dylai'r Strategaeth ddrafft gael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer sylwadau.<br><br>Rhaid i'r Strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol. |
| 2 | Datganiad ar yr Asesiad o Anghenion y Grant Cymorth Tai | Dylai'r datganiad nodi'r galw am wasanaethau a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai, nawr ac yn y dyfodol. Yn ogystal, dylai'r datganiad nodi sut y caiff anghenion statudol a nodwyd eu diwallu drwy gyflawni dyletswyddau statudol | Bob pedair blynedd, ynghyd ag adolygiad llai manwl bob dwy flynedd. | Nid oes angen ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo, ond rhaid iddo gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol. |
| 3 | Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai | Dylai Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai nodi'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni blaenoriaethau Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai drwy'r Grant Cymorth Tai, gan gynnwys ei fwriadau o ran gwariant a chomisiynu.  Dylai gynnwys y canlynol:<br>• Blaenoriaethau cyflawni<br>• Cynllun Gwariant | O fis Ebrill 2022, dylai Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai gwmpasu cyfnod o 3 blynedd wedi'i alinio â'i setliad cyllideb 3 blynedd (h.y. Ebrill 2022 i Fawrth 2026). | Dylai Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai gael ei cyflwyno i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth erbyn 1 Ebrill 2022.<br><br>Dylai'r Cynllun gael ei gyhoeddi ar wefan yr ALI. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Cynllun Comisiynu Lleol<br>• Asesiad o'r Effaith<br>• Tystiolaeth o ymgysylltiad â rhanddeiliaid<br>• Atodiad D ar gyflawni dyletswyddau statudol o ran digartrefedd. | Yna dylai'r cynllun gael ei adolygu a'i ddiweddaru yn flynyddol. | |
| 4 | Cais am Gyllid drwy'r Grant Cymorth Tai | Dylai'r cais am gyllid gynnwys yr elfennau canlynol sydd wedi'u cymryd o'r Cynllun Cyflawni (nid yw hon yn ddogfen ar wahân i'r Cynllun):<br>• Cynllun Gwariant Lleol<br>• Naratif ar unrhyw amrywiadau uwchlaw 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol<br>• Blaenoriaethau cyflawni | Bob blwyddyn | Dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn i'w gymeradwyo. |
| 5 | Diweddariadau ar y cynllun gwariant | Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am wariant yn erbyn y cynllun | • Chwarter 2 – diweddariad chwe misol ar wariant/ tanwariant<br>• Chwarter 3 – adrodd drwy eithriad ar unrhyw danwariant neu orwariant<br>• Chwarter 4 – Datganiad gwariant alldro terfynol | Dylid eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn:<br><br>Ch2 – 14 Hydref<br><br>Ch3 – 13 Ionawr y flwyddyn ariannol ganlynol<br><br>Ch4 – 13 Ebrill y flwyddyn ariannol ganlynol |
| 6 | Adroddiad Cynnydd | Cyflwyno diweddariad naratif ar gynnydd mewn perthynas â'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu templed. | • Diweddariad chwe misol ar gynnydd<br>• Diweddariad diwedd blwyddyn ar gynnydd | Dylid ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn:<br><br>Chwe misol – 14 Hydref |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Diwedd blwyddyn – 13 Ebrill y flwyddyn ariannol ganlynol |
| 7 | Tystysgrif Archwilio Cyllid | Tystysgrif Archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol | Bob blwyddyn | Dylid ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Medi |
| 8 | Datganiad Blynyddol Rhanbarthol Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol | Nodi'r gwaith cydweithredol a wnaed a'r cyfleoedd a'r heriau allweddol a fydd yn flaenoriaethau i'r grŵp drwy gydol y flwyddyn nesaf.<br><br>Dylid cyflwyno adroddiad bob chwe mis yn nodi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau yn y datganiad blynyddol. | Bob blwyddyn<br><br>(Gan y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol/Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol) | Datganiad blynyddol erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn<br><br>Y diweddariad chwe misol erbyn 30 Hydref bob blwyddyn |

# Atodiad C: Proffil Taliadau'r Grant Cymorth Tai

| Cyfnod hawlio | Y dogfennau gofynnol | Cyflwyno erbyn | Dyddiad talu |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno cais | • Cais am gyllid (gweler y canllawiau ym mharagraff 4.2.12) gan gynnwys cynllun gwariant a phroffil gwariant. | Erbyn 31 Ionawr | |
| Chwarter 1 | • Llythyr dyfarnu grant wedi'i lofnodi | Erbyn 30 Ebrill | 31 Gorffennaf |
| Chwarter 2 | • Diweddariad chwe misol ar wariant/ tanwariant<br>• Adroddiad cynnydd naratif chwe misol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi.<br>• Tystysgrif Archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol (erbyn 30 Medi) | Erbyn 14 Hydref* | 31 Hydref* |
| Chwarter 3 | • Diweddariad ar wariant (adrodd drwy eithriad ar unrhyw danwariant neu orwariant) | Erbyn 13 Ionawr y flwyddyn ariannol ganlynol* | 31 Ionawr* |
| Chwarter 4 | • Datganiad gwariant alldro terfynol<br>• Adroddiad cynnydd diwedd blwyddyn. | Erbyn 13 Ebrill y flwyddyn ariannol ganlynol* | 30 Ebrill* |

* Mae hyn yn nodi pryd y gwneir taliadau i awdurdodau lleol yn seiliedig ar dderbyn y ffurflen ofynnol erbyn y dyddiad a nodwyd. Pan gaiff ffurflenni eu cyflwyno yn hwyrach na'r dyddiadau a nodwyd, yna gall hyn olygu bod yr awdurdod yn cael ei dalu ar ddyddiad diweddarach.

# Atodiad D: Mathau o gategorïau gwybodaeth a chyngor

### Diffiniadau o Fathau o Wybodaeth a Chyngor

**Math un – Gwybodaeth**

Mae'n disgrifio gwasanaeth sy'n rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gleientiaid er mwyn iddynt wybod mwy, a gwneud mwy am eu sefyllfa. Gall gynnwys darparu gwybodaeth am bolisïau, hawliau ac arferion, ac am wasanaethau lleol a chenedlaethol a fydd, o bosibl, yn gallu cynnig rhagor o help i'r cleient. Y cleient sy'n gyfrifol am gymryd unrhyw gamau pellach.

E.e. mae person yn gofyn a all gael help gyda'i dreth gyngor. Mae'r gwasanaeth yn rhoi taflen, “Help gyda Threth Gyngor” iddo ynghyd â manylion gwasanaethau cynghori lleol sy'n cynnig cyngor ar fudd-daliadau lles.

**Math dau – Canllawiau**

Mae'n disgrifio gwasanaeth a all drafod manteision ac anfanteision gwahanol opsiynau heb wneud argymhellion penodol. Gall gynnwys gwneud a derbyn atgyfeiriadau, nodi argyfyngau a blaenoriaethu materion.

E.e. mae person am ddeall ei opsiynau o ran cyllid cyn dewis car newydd neu gar ail-law. Mae'r cynghorydd yn egluro nodweddion opsiynau prynu gwahanol ond nid yw'n argymell opsiwn cyllid na gwasanaeth ariannol penodol.

**Math tri – Cyngor**

Mae'n disgrifio gwasanaethau sy'n canfod problem person ac unrhyw faterion cysylltiedig, yn nodi opsiynau a deddfwriaeth berthnasol, ac yn penderfynu sut maent yn berthnasol i amgylchiadau penodol y person, gan gynnwys nodi goblygiadau a chanlyniadau camau gweithredu o'r fath a'r rhesymau dros eu cymryd.

Bydd y gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys llenwi ffurflenni, darparu gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i'r broblem, er enghraifft rhoi cyngor ar y camau nesaf a nodi'r dyddiadau gofynnol ar gyfer cymryd camau er mwyn sicrhau hawliau'r person. Gellir rhoi cyngor ar fwy nag un achlysur.

E.e. mae person yn gofyn a all gael help ariannol i ofalu am gymydog oedrannus. Mae cynghorydd yn gwirio hawl y person i gael budd-daliadau ac yn nodi y gall fod ganddo'r hawl i hawlio Lwfans Gofalwyr, yn dibynnu ar sefyllfa ei gymydog o ran budd-daliadau. Mae'r cynghorydd yn dweud wrth y person am gael ffurflen hawlio er mwyn diogelu ei ddyddiad hawlio posibl ac yn cynnig manylion gwasanaethau a all gynnig help iddo ef a'i gymydog.

**Math pedwar – Cyngor gyda gwaith achos**

Mae'n cynnwys pob elfen o wasanaeth cynghori ac yn cynnwys cymryd camau ar ran y cleient er mwyn symud yr achos yn ei flaen. Gallai gynnwys negodi ar ran y cleient â thrydydd partïon dros y ffôn, drwy lythyr neu wyneb yn wyneb. Bydd y darparwr cyngor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am waith dilynol.

E.e. mae myfyriwr yn ei chael hi'n anodd cael ei flaendal am ddifrod yn ôl gan landlord lleol. Mae cynghorydd yn cysylltu â'r landlord ac yn egluro y bydd yn helpu'r myfyriwr i adennill uchafswm gwerth y blaendal. Mae'r landlord yn honni bod difrod wedi'i wneud i'r eiddo, honiad y mae'r myfyriwr yn ei dderbyn yn ddiweddarach. Mae'r cynghorydd yn negodi swm rhesymol i'w ddidynnu ar gyfer y difrod.

**Math pump – Gwaith achos arbenigol**

Mae'n disgrifio gwasanaethau lle mae'r cynghorydd neu'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn ymgymryd â gwaith cynghori a gwaith achos ar lefel lle mae angen gwybodaeth fanwl iawn am y gyfraith a chyfraith achosion. Fel arfer, mae hyn yn golygu y caiff ei ddarparu gan gynghorydd sy'n meddu ar y wybodaeth a'r arbenigedd cyfreithiol manwl sydd eu hangen i gynrychioli cleientiaid yn y llys neu'r tribiwnlys.

E.e. mae person wedi colli achos mewn tribiwnlys nawdd cymdeithasol haen gyntaf. Mae cynghorydd yn nodi gwall cyfreithiol ym mhenderfyniad y tribiwnlys ac yn mynd ymlaen i gynrychioli'r person gerbron yr Uwch Dribiwnlys. Bydd ei ddadleuon yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chyfraith achosion.

# Atodiad E: Canllawiau ar gomisiynu a chaffael: awgrymiadau a chynghorion

### Awgrymiadau a chynghorion i awdurdodau lleol

- Wrth gynnal ymarfer tendr llawn, ystyriwch a yw'n briodol cyfyngu ar nifer y Lotiau y gellir dyfarnu i sefydliad. Bydd hyn yn helpu i leihau monopolïau.

- Fel rhan o'ch gwaith cynllunio caffael, mae'n bwysig ystyried hyd gorau posibl y contract. Gallai nifer o ffactorau effeithio ar hyn, yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):
    - gofynion cyfredol ac esblygol
    - cymhlethdod gwasanaeth
    - aeddfedrwydd y farchnad a thueddiadau'r farchnad
    - risg ac ansicrwydd
    - y risgiau i'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n gysylltiedig â newidiadau aml i'r darparwr gwasanaeth
    - rheoli perfformiad
    - natur y berthynas â'r cyflenwr
    - cylchoedd cyllideb a chyllido
    - newid rheoliadol
    - newidiadau polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

  Dyma rai ffactorau y dylid eu hystyried i sicrhau bod hyd y contract yn gwneud y mwyaf o werth, canlyniadau defnyddwyr gwasanaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau, gan hefyd reoli risgiau'n briodol ac alinio ag amcanion strategol a'r adnoddau sydd ar gael.

- Fel y nodir yn 7.2.7, dylai'r meini prawf dyfarnu ystyried elfennau hanfodol i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau a natur gymhleth y gwasanaethau a ddarperir.  Ni ddylai contractau fod yn seiliedig ar bris yn unig mwyach, a dylent ganolbwyntio'n fwy ar ansawdd y gwasanaeth y gellir ei ddarparu â chyllideb benodol.

- Dylid ystyried defnyddio grantiau ar gyfer prosiectau byrdymor i dreialu mentrau newydd.   Bydd dyrannu grantiau byrdymor yn annog mwy o arloesi ac yn galluogi prosiectau arbenigol i dreialu syniadau a chynigion newydd.

- Mae cynllunio cyn-gaffael yn gam pwysig o'r broses. Dylai rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, fod yn cymryd rhan mor gynted â phosibl wrth ddylunio gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu cynllunio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth mewn golwg, a bod ganddynt fewnbwn ystyrlon i'r broses gaffael (pan fo'n briodol).

### Cymorth ar gyfer y farchnad

- Mae Busnes Cymru yn cynnal gweithdai am ddim sydd ar gael i bob darparwr, gan gynnwys Cyflwyniad i Dendro ac Ysgrifennu Ceisiadau o Safon Uwch.

Cyfeirio. Dylid annog pob darparwr i fanteisio ar yr hyfforddiant hwn, yn enwedig darparwyr bach

Hyfforddiant Busnes Cymru – Cymorth i Dendro – Gweithdai
Cymorth i Dendro - Gweithdai | Busnes Cymru (gov.wales)

- Mae'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru hefyd yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar gyfer sefydliadau'r Trydydd Sector:
  Hyfforddiant, digwyddiadau a gwobrau - CGGC (wcva.cymru)

- Mae CYD yn darparu cymorth i weithwyr proffesiynol masnachol a chaffael i weithredu Polisïau Caffael Cymru yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

- Cynghorir pob awdurdod lleol i ystyried cynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad cyn cynnal yr ymarfer caffael. Os oes modd, dylid neilltuo digon o amser i ddarparwyr ddeall gofynion y prosiect ac i ddarparwyr bach allu ysgrifennu cais effeithiol. Cyfeirio at gyrsiau hyfforddi.

- Mae Deddf Caffael newydd 2023 yn annog ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad ar gyfer contractau cyhoeddus. Er nad yw hyn yn orfodol, mae'r wybodaeth a fydd yn cael ei chasglu yn ystod y cam hwn yn gallu bod yn hynod werthfawr i'r awdurdod contractio wrth iddo egluro ei ofynion, asesu capasiti'r farchnad a datblygu ei strategaeth gaffael. Mae adran 16 ac adran 17 o'r Ddeddf yn nodi'r prif ddarpariaethau ynghylch gofynion ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad.

- Pan fo awdurdod contractio wedi ymgymryd â gweithdrefn dendro gystadleuol o dan Ddeddf Caffael 2023, rhaid iddo, cyn cyhoeddi'r hysbysiad dyfarnu contract, ddarparu 'crynodeb asesu' sy'n rhoi gwybodaeth er mwyn i gyflenwr perthnasol ddeall pam roedd ei dendr naill ai'n llwyddiannus neu'n aflwyddiannus.

# Atodiad F: Ariannu gwasanaethau larwm

Ariannu drwy’r Grant Cymorth Tai

- Gellir ariannu larymau, drwy’r Grant Cymorth Tai, pan fydd awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniad strategol i wneud hynny. Mae'r ddarpariaeth ar sawl ffurf ond mae'r elfennau y gellir eu hariannu yn cynnwys darparu a chynnal a chadw'r larwm yn ogystal â monitro'r system larwm. Dylid ystyried bod gwasanaethau ymateb i larymau ar wahân a bod angen cyfiawnhau eu cymhwystra ar wahân ar sail eu diben. Felly, ni fyddai gwasanaeth ymateb sy'n cynnig darpariaeth gofal yn gymwys nac ychwaith wasanaeth ymateb sy'n cynnig gwasanaeth iechyd. Ar sail hynny, ni fyddai Telecare, sydd wedi'i gynllunio'n benodol i fynd i'r afael ag anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol (er enghraifft mewn ymateb i Ddementia) yn gymwys ar gyfer cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, er y gall larymau a gwasanaethau monitro yn aml ymateb i faterion gofal cymdeithasol fel achosion o faglu neu gwympo, yn aml gallant fod yn rhan annatod o allu deiliad contract[8] i barhau i fyw yn ei gartref, ac, fel y cyfryw, gellir eu hystyried yn gymorth tai.

- Lle y caiff larymau gwifredig eu darparu mewn lleoliadau tai cymdeithasol, maent yn aml yn gysylltiedig â systemau mynediad a systemau diogelwch eraill sy'n gysylltiedig â system reoli'r adeilad, ac, fel y cyfryw, gallant fod yn gymwys ar gyfer cymorth drwy'r system les. Pan fydd costau'n gymwys yn y ffordd hon, dylid eu hariannu drwy rent a thaliadau gwasanaeth ac ni ddylid eu hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai.

- Gellir ariannu larymau a gynlluniwyd i fonitro llesiant yr unigolyn neu ei alluogi i gysylltu â gwasanaeth ymateb drwy'r Grant Cymorth Tai. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gall fod yn anymarferol i landlord wahanu larymau gwifredig i'r rheini sydd ag angen a nodwyd oddi wrth weddill y system. Dylai'r awdurdod ystyried ariannu larymau ar draws cynllun cyfan os yw gwneud hynny'n cyflawni amcan strategol i wella canlyniadau tai a lleihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus eraill. (Gweler isod)

- Gellir ariannu larymau symudol ond yr amod eu bod yn cael eu darparu mewn ymateb i angen a nodwyd. Dylai awdurdodau lleol ystyried opsiynau amhenodol eu deiliadaeth wrth ddarparu larymau symudol. Gellir ariannu 'larymau panig' a gynlluniwyd i alluogi rhywun i barhau i fyw yn ei gartref pan fydd yn wynebu bygythiad allanol (fel trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).

- Gall awdurdodau godi tâl ar ddefnyddwyr unigol am ddarparu gwasanaeth larwm, ar ôl asesu eu gallu i dalu. Wrth benderfynu a ddylid codi tâl, dylai awdurdodau ystyried y costau gweinyddu a'r goblygiadau i landlordiaid, a deiliaid contractau eraill, sy'n gysylltiedig â darparu larymau gwifredig i deiliaid contractau, a all ddewis herio eu darpariaeth pan fyddant yn wynebu tâl wythnosol.

[8] Mae’r term ‘tenant bellach wedi’i ddisodli gan ‘deiliad contract o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi Cymru

Ariannu llesiant

- Larymau a Budd-dal Tai*:* Dim ond os caiff ei dalu fel amod i feddiannu, os na chaiff ei restru'n anghymwys mewn rheoliadau ac os nad yw'n ormodol mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir y bydd tâl gwasanaeth yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai. Mae hynny'n golygu nad yw'n amod lle y gall y deiliaid contractau ddewis derbyn a thalu am y gwasanaeth a gynigir ai peidio.

- Ac eithrio ar gyfer eitemau anghymwys, bydd unrhyw dâl sy'n gysylliedig â darparu 'llety digonol' yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai. O ganlyniad, bydd darparu system ddiogelwch sy'n gysylltiedig â'r llety, e.e. teledu cylch cyfyng neu systemau drysau sy'n gwarchod neu'n rheoli mynediad i'r adeilad ei hun, yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai.

- Larymau a Chredyd Cynhwysol: Landlordiaid sy'n pennu pa rai o'u gwasanaethau sy'n gymwys ac yn hysbysu'r deiliad contract o'r swm. Caiff hyn ei nodi yn y cais am Gredyd Cynhwysol gan y deiliad contract neu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os bydd gwasanaeth yn gymwys, mae hyn yn golygu y caiff ei gynnwys yn y rhent cymwys; fodd bynnag, os yw'r gwasanaeth wedi'i eithrio, mae hyn yn golygu na ellir talu Credyd Cynhwysol tuag at yr eitem. https://www.gov.uk/government/publications/universal-credit-service-charges-guidance-for-landlords/universal-credit-service-charges-guidance-for-landlords

  Rhestrir yn y gyfraith fod categorïau **A** i **D** yn gymwys ar gyfer Credyd Cynhwysol:-

  - Cynnal safon gyffredinol y llety **(Categori A)**
    Glanhau y tu allan i ffenestri ar loriau uchaf
  - Gwaith cynnal a chadw cyffredinol mewn ardaloedd cymunedol **(Categori B)**
    - Gwaith cynnal a chadw a/neu lanhau parhaus mewn ardaloedd cymunedol,
    - Cyflenwi dŵr, tanwydd neu nwyddau eraill i ardaloedd cymunedol
  - Gwasanaethau cymunedol sylfaenol **(Categori C)**
    Darparu gwasanaethau cymunedol sylfaenol yn cynnwys, er enghraifft, mynediad diogel i adeilad (cardiau allwedd, dulliau cloi drysau drwy ddefnyddio bysellbad ac ati.)
  - Taliadau sy'n benodol i'r llety **(Categori D)**
    Defnyddio eitemau hanfodol yn eich llety eich hun fel dodrefn a chyfarpar domestig.